

Y Tyst Annisgwyl:

Datblygiad Ffydd y Wraig o Samaria yn Ioan 4

Traethawd hir ar gyfer MA mewn Dehongli'r Beibl (HPRS7007)

Nerys Siddall

Rhif myfyriwr: 2110320

Dyddiad cyflwyno: 29 Medi, 2023



Ffurflen Glawr ac Adborth ar gyfer Traethawd Hir Ôl Raddedigion:

<i>I'w gwblhau gan y Myfyriwr:</i>		
Enw'r Myfyriwr: Nerys Siddall E bost Prifysgol y Myfyriwr: 2110320@student.uwtsd.ac.uk		
Côd y Modiwl: HPRS7007	Rhif adnabod y Myfyriwr: 2110320	Anghenion Cymorth arbennig: Na
<i>Teitl y Traethawd Hir:</i> Y Tyst Annisgwyl: Datblygiad Ffydd y Wraig o Samaria yn Ioan 4		
Goruchwyliwr: Dr. Catrin Haf Williams		Nifer y geiriau: 15,635
Rwy'n cadarnhau bod y gwaith yma yn waith gwereiddiol sydd wedi ei gwblhau gen i. 'Rwyf hefyd yn cadarnhau fy mod wedi cadw at Bolisi y Brifysgol ar Lên- laddrad.		
Llofnod: N Siddall		
Cyflwyno trwy e bost: Os ydych yn cyflwyno eich gwaith trwy e bost yna ticiwch y blwch yma. ✓ (Yn lle eich llofnod) I gadarnhau eich bod yn cytuno gyda'r datganiad uchod.		
<i>I'w gwblhau gan y marciwr 1af:</i> Sylwadau:		
Marc y Marciwr 1af:		Dyddiad:

Llofnod:		
<i>I'w gwblhau gan yr 2ail farciwr:</i> Sylwadau:		
Marc yr 2ail Farciwr: Llofnod:		Dyddiad:
Marc Terfynol Mewnol: Llofnod- Marcwr 1af: Llofnod- 2ail Farciwr:		Dyddiad
Sylwadau (<i>I'w gwblhau gan y marcwyr mewnol gan nodi sut y gytunwyd ar y marc</i>):		
<i>Nodyn: Nid yw'r marc yn derfynol tan ei fod wedi ei gadarnhau yn y Bwrdd Arholi Terfynol</i>		

<i>I'w gwblhau gan farciwr allanol:</i> Sylwadau:	
Marc: Llofnod y Marciwr allanol:	
Marc Terfynol:	
Sylwadau (I nodi sut gytunwyd ar y marc terfynol):	

Graddau Meistr drwy Arholiad a Thraethawd Hir

Ffurflen ddatganiad

1. Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi'i dderbyn am radd yn flaenorol ac nid yw'n cael ei gyflwyno mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd arall ar hyn o bryd.

Enw: N. Siddall

Dyddiad: 29 Medi 2023

2. Cyflwynir y traethawd hir hwn i gyflawni'n rhannol ofynion gradd

Enw: N. Siddall

Dyddiad: 29 Medi 2023

3. Ffrwyth fy ngwaith/ymchwil annibynnol fy hun yw'r traethawd hir hwn, ac eithrio lle nodir fel arall.

Cydnabyddir ffynonellau eraill trwy gyfrwng troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau manwl.

Atodir llyfryddiaeth.

Enw: N. Siddall

Dyddiad: 29 Medi 2023

4. Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm traethawd hir, os caiff ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo, ei fenthycu rhwng llyfrgelloedd, a'i adneuo yng nghadwrfa ddigidol y Brifysgol.

Enw: N. Siddall

Dyddiad: 29 Medi 2023

Datganiad y Goruchwyliwr

Rwy'n fodlon fod y gwaith hwn yn ganlyniad i ymdrechion y myfyriwr ei hun.

Llofnodwyd:

Dyddiad:

CYDNABYDDIAETHAU

Hoffwn ddiolch yn fawr i Dr. Catrin Haf Williams am ei chymorth, cyngor a chefnogaeth wrth ysgrifennu'r traethawd ac am cael gwneud defnydd o'i chasgliad helaeth o lyfrau.

Diolch o galon i Carwyn am ei gefnogaeth a'i amynedd yn ystod y misoedd diwethaf ac i Miriam a Marged am eu hannogaeth.

CYNNWYS

	Tudalen
Cyflwyniad	8
Pennod 1: Y Ffynnon a'r Dŵr Bywiol (In. 4:7-15)	11
Pennod 2: Y Safle Sanctaidd (In. 4:16-26)	25
Pennod 3: Y Cynhaeaf (In 4:27-42)	41
Casgliad	52

Crynodeb

Bwriad y traethawd hwn yw ymchwilio i ddatblygiad ffydd y wraig o Samaria yn ôl Ioan 4, a hynny yn ystod ei chyfarfyddiad â Iesu wrth ffynnon Jacob ar gyrion tref Sychar. Rhoddir sylw penodol i'r modd y mae adnabyddiaeth y wraig o Iesu yn datblygu yn adnodau 7-42 a pha effaith a gaiff hyn ar ei ffydd. Mae'r traethawd wedi ei rannu i dri pennod a phob un yn canolbwyntio ar y prif themâu a delweddau sy'n cael eu trafod yn y testun, sef y dŵr bywiol, y safle sanctaidd, a'r cynhaeaf.

Trwy gydol eu hymddiddan mae Iesu yn ceisio helpu'r wraig i ddod i'w adnabod ac felly, wrth gloi pob pennod, byddaf yn holi a oes unrhyw ddatblygiad yn lefel ei dealltwriaeth o'r hyn mae Iesu yn ceisio egluro iddi trwy gyfrwng yr amrywiol ddelweddau. Canolbwyntir yn y cyswllt hwn ar y cysylltiad rhwng y cynnydd yn adnabyddiaeth y wraig ohono ac yn y modd y mae ei ffydd yn dyfnhau. I gloi, byddaf yn ystyried y cwestiwn a yw'r wraig, yn ôl Ioan, wedi dod i lawn gredu yn Iesu erbyn diwedd ei chyfarfyddiad ag ef.

Bydd y traethawd yn rhoi sylw i arwyddocâd y ffaith bod dau ffigur mor annhebyg i'w gilydd - yn gymdeithasol, yn grefyddol, ac yn ddiwylliannol - yn cynnal deialog estynedig wrth ffynnon Jacob. Gwelir bod Iesu, o ganlyniad, yn chwalu arwyddocâd y ffiniau sydd rhyngddynt, gyda'r bwriad o greu undod unwaith eto rhwng yr Iddewon a'r Samariaid, a hynny ar sail ei gyfarfyddiad â gwraig sydd yn cyflawni rôl y tyst annisgwyl.

Cyflwyniad

Bydd cynnwys y traethawd yn archwilio i'r newid yn nealltwriaeth a lefel ffydd y wraig o Samaria. Mae'r ddeialog rhwng y wraig a Iesu yn drawiadol am sawl rheswm, nid yn unig oherwydd y gwahaniaethau rhyngddynt ond hefyd oherwydd canlyniad y ddeialog ac effaith tystiolaeth y wraig ar eraill.

Mae merched yn chware rôl arwyddocaol yn Efengyl Ioan a gwelwn fod tri o brif sgysiau Iesu yn digwydd gyda merch, a hynny mewn straeon sy'n datgelu hunaniaeth Iesu, sef Mair mam Iesu (2:3-9), Mair Magdalen (20:11-17) a'r wraig o Samaria (4:7-42). Mae Ioan yn ysgrifennu am fyd ffydd na fyddai'n bodoli heb gyfraniad merched.¹ Nid ydynt chwaith yn ferched sy'n cilio a chuddio y tu ôl i eraill. Mae'r wraig o Samaria yn enghraifft o ferch sy'n cael ei gosod yng nghanol y llwyfan. Dyma'r ddeialog hiraf gyda Iesu yn Efengyl Ioan, sydd yn eironig o ystyried bod y Samariaid a'r Iddewon yn ystod y cyfnod hwn yn anghydweld â'i gilydd. Yn ogystal â hyn mae'r ffaith ei bod hi'n wraig yn drawiadol, gan na fyddai Iddew yn siarad gyda gwraig yn gyhoeddus.

Mae'r traethawd wedi ei rannu yn dri pennod gyda phob pennod yn canolbwyntio ar un o'r delweddau sy'n cael eu cyfleu gan Iesu yn ystod y sgwrs. Rhoddir sylw i'r modd maent yn cael eu defnyddio gan Iesu i geisio helpu'r wraig i ddod i adnabod Iesu. Y tri prif ddelwedd y canolbwyntir arnynt fydd y dŵr bywiol, y safle sanctaidd, a'r cynhaeaf. Mae rhan helaeth o gynnwys y sgwrs rhwng y ddau gymeriad yn digwydd ar ddwy lefel, sef y llythrennol a'r symbolaidd, felly byddaf yn archwilio i ba raddau mae'r wraig yn deall yr hyn mae Iesu yn ei

¹ Gail O'Day, 'Gospel of John' yn C.A. Newsom, S.H. Ringe, J. E. Lapsley (gol.), *Women's Bible Commentary* (SPCK, 2014), t.519.

ddweud er mwyn iddi ddod i weld mai ef yw'r ffigwr proffwydol a meseianaid y mae'r Samariaid wedi bod yn disgwyl amdano.

Yn y bennod gyntaf byddaf yn cyfeirio at yr olygfa sydd wedi cael ei osod gan yr awdur gan fod y wybodaeth yn yr ychydig adnodau hyn yn holl bwysig er mwyn dod i wybod am amylchiadau Iesu ac arwyddocad lleoliad y sgwrs. Yn bennaf, bydd y bennod hon yn rhoi sylw i destun y dŵr bywiol. Dyma'r ddelwedd gyntaf mae Iesu yn ei gyflwyno i'r wraig. Mae symboliaeth yn frith drwy Efengyl Ioan, ac nid yw'r bedwaredd bennod yn eithriad. Byddaf yn ystyried sut mae'r wraig yn ymateb i'r symbolau y mae Iesu yn ceisio eu hegluro iddi drwy gyfrwng y delweddau sydd eisoes yn adnabyddus iddi.

Gan fod y ddeialog rhwng Iesu a Nicodemus yn digwydd yn y bennod flaenorol (Ioan 3), mae'n anodd peidio cymharu a gwrthgyferbynnu'r ddau gyfarfyddiad. Mae Nicodemus a'r wraig yn gymeriadau tra gwahanol i'w gilydd oherwydd eu statws, ac ym mhennod gyntaf yr astudiaeth hon byddaf yn cymharu ymateb y ddau gymeriad i'r hyn sydd gan Iesu i'w ddweud wrthynt. Bydd hyn yn cael ei gymhwyso ar ddiwedd y bennod gyntaf gan mai yn adnodau 4-15 y gwelir y mwyafrif o'r gwrthgyferbyniadau gyda Nicodemus.

Yn yr ail bennod byddaf yn rhoi sylw penodol i adnodau 16-26 pan fo Iesu a'r wraig o Samaria yn trafod pwnc dyrys a diwinyddol, sef ble mae'r safle (mwyaf) sanctaidd fel ffocws addoliad. Yma gwelwn uchafbwynt y ddeialog yn yr hyn mae Iesu yn ei rannu gyda hi ac yn cynnig cyfle euraidd iddi sylweddoli fod yr Iddew hwn yn meddu cysylltiadau dwyfol. Byddaf yn ystyried a oes unrhyw newid yn deinameg y sgwrs ac yn trafod yr hyn mae Iesu yn ei ddatgelu iddi.

Bydd cynnwys y drydydd bennod yn canolbwyntio ar adnodau 27-42 lle gwelir ganlyniad y ddeialog gan ystyried pa effaith mae'r sgwrs yn ei gael ar y wraig, yn ogystal â chanolbwyntio ar yr effaith mae ei thystiolaeth yn ei gael ar eraill. Mae mwy o gymeriadau yn cael eu cyflwyno

erbyn diwedd y bennod, ac felly byddaf yn trafod ymateb y disgyblion wrth weld Iesu yn siarad gyda'r wraig a hefyd ymateb y Samariaid i dystiolaeth y wraig. Er nad yw Iesu'n sôn am y ddelwedd o'r cynhaeaf yn uniongyrchol gyda'r wraig, mae'r ddelwedd hon yn bwysig gan fod portread Iosabab o'r wraig yn rhan allweddol o'r modd y defnyddir y ddelwedd gan Iesu.

Bydd pob pennod yn cynnwys casgliadau byr er mwyn ceisio gwerthuso a oes newid yn lefel dealltwriaeth y wraig o bwy yw Iesu ac a oes unrhyw newid yn lefel ei ffydd. Er ei fod yn allweddol trafod natur y symbolaeth a'r arwyddocâd a berthyn i'r delweddau hyn, bydd y traethawd hwn yn canolbwyntio ar y modd y mae'r delweddau hyn yn gyfrwng i ddatblygu a dyfnhau dealltwriaeth y wraig o Iesu, ac, fel rhan o hynny, yn cael effaith ar ei pherthynas gyda Iesu wrth iddi dechrau deall ystyr y symbolaeth hwnnw.

Pennod 1

Y Ffynnon a'r Dŵr Bywiol (In. 4:7-15)

1. Arwyddocâd Taith Iesu at y Ffynnon (In. 4:1-6)

Yn yr adnodau agoriadol, ceir gwybodaeth ynglŷn â'r amgylchiadau wrth i Iesu deithio i Samaria a chyn i'r wraig o Samaria ymddangos. Hyd yn oed cyn iddi fod yn bresennol, nodir nifer o fanylion sy'n gosod y sail ar gyfer gweddill y bennod. Mae Efengyl Ioan yn ei gyfanrwydd yn llawn symbolaeth, ac wrth graffu ar y manylion a'r darluniau sy'n cael eu cyflwyno gan yr awdur, mae'r darlennydd yn gallu dechrau datgloi'r neges sy'n cael ei chyfathrebu.

Yma, cawn y cefndir o sut y daeth Iesu i Samaria. Wrth deithio o Jwdea yn ôl i Galilea, wedi iddo ddeall fod y Phariseaid wedi clywed ei fod yn ennill ac yn bedyddio mwy o ddisgyblion nag Ioan (ad. 1-2), dywed adnod 4 fod yn 'rhaid iddo fynd trwy Samaria'. Yn ddaearyddol, nid oedd rheidrwydd i fynd drwy'r wlad honno, gan y byddai'r Iddewon fel arfer yn ceisio osgoi Samaria, gan ddefnyddio ffyrdd eraill megis ar hyd yr arfordir, drwy Caesarea neu ar draws yr lорddonen a thrwy dyffryn yr lорddonen (er ei fod yn daith llawer hirach).² Roedd y daith hon, felly, yn daith fwriadol ac yn daith oedd yn unol â'r cynllun dwyfol. Drwy'r daith hon, roedd Iesu yn croesi ffiniau, ac nid ffiniau daearyddol yn unig, ond hefyd ffiniau cymdeithasol a diwylliannol. Byddai'n fodd iddo ddangos bod ei genhadaeth i bawb, nid i'r Iddewon yn unig. Yn ôl Lincoln, 'He is under divine necessity as the Father's envoy in seeking worshippers from

² Joseffws, *Bywyd*, 269. Gweler ymhellach M. M. Thompson, *John: A Commentary* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 2017), t. 97.

Samaria' (ad. 23).³ Cararnha hyn ei fwriad o geisio ennill dilynwyr mewn gwlad oedd wedi datblygu gelyniaeth chwerw gyda'r Iddewon.

Deillia'r ffiniau cymdeithasol a diwylliannol yn bennaf o'r drefn nad oedd yr Iddewon a'r Samariaid yn cymysgu â'i gilydd, a'r rheswm am hyn yw bod y gwrthdaro rhyngddynt yn deillio o'r cyfnod yn hanes Israel pan oedd yr un deyrnas, a fu o dan teyrnasiad Dafydd ac yna Solomon, wedi cael ei rhannu yn ddwy. Daeth hyn o ganlyniad i Solomon bechu yn erbyn Duw drwy addoli duwiau eraill, a'r gosb byddai rhaniad yn nhŷ Israel. Cafodd hyn ei broffwydo gan Achia o Seilo yn 1 Brenhinoedd 11:31-35: '...dweud wrth Jeroboam, "Cymer ddeg o'r darnau, oherwydd fel hyn y dywedodd ARGLWYDD Dduw Israel: 'Yr wyf ar rwygo'r deyrnas o afael Solomon, a rhoi i ti ddeg o'r llwythau'. Roedd y wlad bellach yn ddwy ran: y Deyrnas Ogleddol (Israel), gyda Samaria yn brifddinas, a'r Deyrnas ddeheuol (Jwdea) a Jerwsalem yn brifddinas.⁴ Canlyniad hyn oedd datblygu man addoli gwahanol ar gyfer y gogledd a'r de. Adeiladodd y Samariaid eu teml eu hunain ar Fynydd Gerizim, a pharhau i addoli fel yr Iddewon, ond gan gymryd y pum llyfr cyntaf o'r Ysgrythurau yn unig fel eu hawdurdod ysbrydol, tra roedd yr Iddewon yn addoli yn Jerwsalem. Er yr amser oedd wedi mynd heibio ers cwmp Solomon, roedd y rhaniad a'r drwgdeimlad rhwng y ddwy genedl yn parhau. Gwelwn ddiweddarach yn nhestun Ioan gyfeiriad uniongyrchol at eu mannau addoli gwahanol (ad. 20-24), a thrafodir y mannau hynny yn nes ymlaen yn y traethawd hwn. Mae gwybod a deall y cefndir hanesyddol o bwys mawr wrth ddarllen Ioan 4 er mwyn gallu gwerthfawrogi pa mor arwyddocaol ac anarferol oedd y cyfarfyddiad rhwng Iesu a'r wraig o Samaria. Caiff Samaria ei grybwyll ddwywaith gan Ioan (ad. 4-5) ac felly mae hefyd yn tynnu sylw at fawredd yr hyn fydd yn

³ Andrew T. Lincoln, *The Gospel According to St. John* (Llundain: Bloomsbury Publishing Plc, 2005), t. 171.

⁴ Mary L. Coloe, 'The Woman of Samaria: Her Characterization, Narrative and Theological Significance', yn Christopher W. Skinner (gol.), *Characters and Characterisation in the Gospel of John* (Llundain: Bloomsbury Publishing Plc, 2013), t. 188.

digwydd erbyn diwedd y bennod – sef bod dau gymeriad o ddiwylliant, cefndir a chymdeithas wahanol yn creu undod lle bu rhwyg rhwng eu pobl (ad. 42).

Yn loan 4:3-5, cawn weld sut mae ehangder y ddaearyddiaeth yn culhau wrth i loan symud o egluro bod Iesu yn teithio o Jwdea i Galilea, a bod yn rhaid iddo fynd drwy Samaria, ac yna gosod y pin yn fanylach ar y map drwy nodi mai i dref Sychar yr aeth. Dyma dref sydd â chysylltiadau cryf gyda threftadaeth y Samariaid, oherwydd dywedir yn adnod 5 bod Sychar yn agos at ddarn o dir a roddodd Jacob i’w fab Joseff. Ceir y cyfeiriad cyntaf at hyn Genesis 48:22: ‘A rhoddaf i ti yn hytrach nag i’th frodyr gefnen o dir a gymerais oddi ar yr Amoriaid a’m cleddyf ac a’m bwa’. Mae’r darn o dir yn atgoffa’r darllenydd bod y ddeialog rhwng Iesu a’r wraig o Samaria yn digwydd mewn man oedd yn arfer bod yn eiddo i’r patriarchiaid – a bod gan yr Iddewon a’r Samariaid, felly, linach cyffredin.⁵ Dyma’r cyfeiriad cyntaf at y patriarchiaid yn loan 4 ac, yn yr un modd, at dreftadaeth y Samariaid. Er y linach gyffredin, y bwriad yw unwaith eto tanlinellu’r gwahaniaeth pellach rhwng yr Iddewon a’r Samariaid, ac amlygu’r ffaith fod Iesu yn camu i dir nad yw’r Iddewon fel arfer yn cael mynediad iddo.

2. Y Ddelwedd o Ffynnon

Yn nhref Sychar roedd ffynnon Jacob, a manyla loan fel a ganlyn yn adnod 6: ‘a chan fod Iesu wedi blino ar ôl ei daith eisteddodd i lawr wrth ffynnon’. Nid yw Iesu’n symud o’r fan honno drwy gydol yr olygfa, a thrwy ei arhosiad mae’n gwneud y ffynnon yn angor i’r hanes. Wrth osod Iesu a’r wraig o Samaria yn y fan benodol hon, mae’n ei ymgysylltu â’r hanes a hefyd â thraddodiadau Iddewig eraill, gan fod y ddelwedd hon yn cael ei defnyddio ar fwy nag un

⁵ Gweler M. M. Thompson, *John*, t. 98.

achlysur yn yr Ysgrythurau Iddewig pan ddaw dau ynghyd gerllaw ffynnon, a hynny yn ei dro yn arwain at briodas. Gelwir y math hwn o olygfa gan ysgolheigion megis Robert Alter yn olygfa-teip (*'type-scene'*), hynny yw, pan fo storïau yn cynnwys elfennau generig penodol ac yn ymddangos fwy nag unwaith yn y testun beiblaidd. Dywed Alter,

The betrothal type-scene... must take place with the future bridegroom in a foreign land. There he encounters a girl... or girls at a well. Someone, whether the man or the girl, then draws water from the well; afterward, the girl or girls rush to bring home the news of the stranger's arrival; finally, a betrothal is concluded between the stranger and the girl, in the majority of instances, only after he has been invited to a meal.⁶

Enghraifft o'r math yma o olygfa yw Genesis 29:10, pan fo Jacob yn cyfarfod Rachel wrth geg y pydew. Gan mai wrth ffynnon Jacob y mae Iesu a'r wraig o Samaria yn cyfarfod – y ffynnon oedd wedi sicrhau bod syched corfforol y gymuned Samariaidd yn cael ei ddiwallu - mae hyn unwaith eto yn ddolen sy'n cysylltu â gorffennol y Samariaid. Mae'r cyfarfyddiad rhwng dyn a gwraig wrth ffynnon yn symbol yn yr Ysgrythurau o undod sy'n arwain at briodas. Gwelir y dyn fel priodfab yn cyfarfod â'i ddarpar wraig, a dyma oedd hanes Jacob a Rachel. Yn Exodus 2:15-21 mae'r yr un patrwm yn digwydd yn achos Moses wrth iddo gyfarfod merched offeiriad Midian. Mae'r merched yma hefyd yn codi dŵr ac aiff Moses ymlaen i briodi un o'r merched, sef Seffora. Gwelwn fod dŵr yn y cyd-destun hwn hefyd yn symbol o ffrwythlondeb, gan eu bod yn dibynnu ar ferched ffrwythlon er mwyn i'r llinach barhau.

Wedi dweud hynny, nid priodas lythrennol yw canlyniad y cyfarfyddiad rhwng Iesu a'r wraig o Samaria, ond undod o fath gwahanol, sef priodas ddelweddol a symbolaidd. Ceir adleisiau, felly, o lyfr Hosea wrth ystyried yr undod sydd i ddigwydd erbyn diwedd y cyfarfyddiad

⁶ Robert Alter, *Art of Biblical Narrative* (Llundain: Allen and Unwin, 1981), t. 52.

rhyngddynt yn Ioan 4. Dywed Larry Paul Jones, 'Because of the use of this "type-scene" in Hebrew Scriptures the reader can sense the possibility of an impending symbolic union even without anticipating a meeting between Jesus and a potential bride'.⁷ Ym mhroffwydoliaeth Hosea, cawn ddelwedd o Dduw ac Israel fel priodfab a phriodferch, 'Fe'th ddyweddïaf â mi fy hun dros byth; fe'th ddyweddïaf â mi mewn cyfiawnder a barn, mewn cariad a thrugaredd. ²⁰Fe'th ddyweddïaf â mi mewn ffyddlondeb, a byddi'n adnabod yr ARGLWYDD'" (Hos. 2:19-20). Dyma undod rhwng Duw a'i bobl ble mae'n addo gofalu am y genedl a'i gwlad ac na fydd yn torri'r addewidion y mae wedi eu datgan. Dyma awgrym felly o'r hyn sydd i ddigwydd o ganlyniad i'r cyfarfyddiad rhwng Iesu a'r wraig o Samaria: bydd y berthynas a phriodas symbolaidd yn digwydd rhwng Duw a'r wlad, Samaria, wrth i'r bobl ddod i gredu yn Iesu fel gwaredwr (ad. 42). Bydd yr awgrym am yr adferiad yn y berthynas hon yn cael ei drafod ymhellach yn y traethawd wrth drafod canlyniad y cyfarfod.

3. Y Wraig wrth y Ffynnon

I ddod yn ôl at destun Ioan 4, mae'r wraig sydd wrth ffynnon Jacob yn wahanol i'r rhai yn yr enghreifftiau ysgrythurol yr wyf wedi crybwyll eisoes, megis Seffora a Rachel. Ni chyfeirir at ei henw, ond yn hytrach fel 'y wraig o Samaria', a hynny deirgwaith o fewn tair adnod (ad. 7, 9). Yn adnod 7, caiff y wraig ei chyflwyno, a hynny mewn modd diffwdan, wrthi iddi ddod i gyflawni tasg ddyddiol o dynnu dŵr. Wrth osod y bennod hon o fewn cyd-destun hanesyddol, gwelir yma ddau beth fyddai wedi bod yn ei herbyn, sef (1) ei bod yn wraig, a (2) ei bod yn un

⁷ Larry P. Jones, *The Symbol of Water in the Gospel of John* (Llundain: Bloomsbury Publishing Plc, 1997), t. 95.

o'r Samariaid. Dyma'n sicr un o'r cyfarfyddiadau fwyaf dadleuol yn Efengyl Ioan wrth i Iesu, fel y nodwyd eisoes, groesi ffiniau cymdeithasol, crefyddol a gwleidyddol y cyfnod.

Mae hefyd yn ddadleuol am fod Iesu yn cwrdd â gwraig. Medd Colleen Conway, 'gender is not coincidental to the story, but a major component of the narrative'.⁸ Yn wahanol i Efengyl Luc, lle mae presenoldeb merched yn ymddangos yn sgîl dynion ac yn parhau gyda'u swyddogaethau traddodiadol, mae Efengyl Ioan yn rhoi llwyfan i ferched i fod yn rhan o weinidogaeth Iesu yn eu henw eu hunain. Gwelwn yn Efengyl Luc bod dynion a gwragedd yn ymddangos fel parau, megis Elisabeth a Sachareia (Luc 1:5), Simeon ac Anna (2:22-28) ac mae dynion a gwragedd hefyd wrth y groes (23:27).⁹ Ond yn Efengyl Ioan, erbyn adnod 11, ni chyfeirir bod y wraig yn Samariad erbyn hyn, oherwydd mae'r ffocws bellach ar ddyn a gwraig wrth ffynnon (fel eglurais yn gynharach, yn bortread o golygfa-teip, '*betrothal type-scene*'). Ceir gwybod hefyd bod y disgyblion wedi 'mynd i'r dref i brynu bwyd' (ad. 8), ac felly mae'r awdur eisiau tynnu sylw'r darllenwyr bod Iesu a'r wraig ar eu pennau hunain. Mae hyn yn ddadleuol gan gofio statws gwragedd yn ystod y cyfnod hwn. Gwelir sawl cyfeiriad tuag at statws gymdeithasol y wraig mewn yn yr Ysgrythurau Iddewig, megis pan mae'r gwŷr yn cael ei ystyried fel ei meistr neu ei pherchennog, 'Os daeth i mewn ei hun, caiff fynd ymaith ei hun, ond os oedd yn briod, caiff ei wraig fynd ymaith gydag ef. Os rhydd ei feistr wraig iddo, a hithau'n esgor ar feibion neu ferched iddo, bydd y wraig a'i phlant yn eiddo i'r meistr, ac y mae'r caethwas i fynd ymaith ei hun' (Ex.21:3). Gweler felly fod gwragedd yn cael eu hystyried yn israddol i'w gwŷr, ac wrth drafod merched o Samaria yn benodol fe ddywed y Mishnah:

⁸ Colleen M. Conway, *Men and Women in the Fourth Gospel: Gender and Johannine Characterization* (Atlanta, GA: Society of Biblical Literature, 1999), t. 109.

⁹ Sandra Schneiders, *Written That You May Believe: Encountering Jesus in the Fourth Gospel* (Efrog Newydd: Crossroad Publishing, 2003), t. 93; E.S. Fiorenza, 'A Feminist Critical Interpretation for Liberation: Martha and Mary: Lk. 20:38-42', yn *Religion and the Intellectual Life* 3 (1986), tt. 21-36.

‘Ystyrir merched o Samaria yn menstruants o’u crud’ (m. Niddah 4:1). Awgrymir eu bod yn amhur yn wastadol ac felly dylid ymatal rhag bod mewn cysylltiad gyda hwy.¹⁰ Mae tystiolaeth o’r fath yn awgrymu bod y ddeialog rhwng Iesu a gwraig o Samaria yn destun trafod ac yn rhywbeth sydd y tu hwnt i’r norm.

Yn ogystal â hyn, y wraig o Samaria yw’r ferch gyntaf yn yr Efengyl i gynnal ymgom gyda Iesu heb i’r ddeialog fod yn arwynebol o ran cynnwys, ond yn hytrach yn un sy’n trafod pynciau dyrys a diwinyddol. Yn fwy nag Efengyl Luc, merched yw’r prif gymeriadau mewn golygfeydd o bwys diwinyddol.¹¹ Yn gyffredinol, byr yw deialogau Iesu gyda chymeriadau eraill yn Efengyl Ioan. Dywed Hylen yn y cyswllt hwn: ‘Many of the characters in John appear rather briefly, engage Jesus on one topic, and then disappear’.¹² Yn sicr, mae’r wraig o Samaria yn eithriad o natur y deialogau eraill yn yr Efengyl gan mai hon yw’r sgwrs hiraf rhwng cymeriad â Iesu. Yn amlwg mae gan Iesu fwriad a chynllun dwyfol ac mae am ei gyflawni drwy ddyfalbarhau mewn sgwrs gyda’r wraig. Dyma un o’r ychydig enghreifftiau lle nad yw’r sgwrs yn troi mewn i fonolog o’r eiddo Iesu.¹³ Fel mae’r sgwrs yn mynd yn ei flaen gwelwn fod y wraig yn dal ei thir ac yn barod i ofyn cwestiynau heriol er mwyn gwybod mwy. Yn yr un modd, mae Iesu yn dyfalbarhau i geisio egluro yr hyn sydd ganddo i’w rannu, yn hytrach na gadael y sgwrs wedi iddo weld ei bod yn cael trafferth deall rhai agweddau. Mae’r ddeialog arbennig hon yn cynnwys sawl delwedd a symbolau er mwyn helpu’r wraig ddod i wybod pwy yw’r Iddew dieithr a fydd, o ganlyniad, yn fodd i’r wraig dyfu a datblygu yn ei ffydd. Mae’r chwarae ar y

¹⁰ Gweler Conway, *Men and Women in the Fourth Gospel*, t. 110.

¹¹ Turid K. Seim, ‘Roles of Women in the Gospel of John’ yn L. Hartman a B. Olsson (gol.), *Aspects on the Johannine Literature* (Sweden: Almqvist and Wiksell International, 1988), t. 57.

¹² Susan Hylen, *Imperfect Believers: Ambiguous Characters in the Gospel of John* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 2009), t. 1.

¹³ Gweler Conway, *Men and Women in the Fourth Gospel*, t. 104.

berthynas rhwng y nefol a'r corffol yn fodd o symud y ddeialog yn ei blaen drwy gynnig un cyfle ar ôl y llall i'r wraig ddeall ei wir hunaniaeth a beth sydd ganddo i'w gynnig iddi.

4. Y Dŵr Bywiol

Er y gwahaniaethau rhwng y ddau a pha mor anarferol yw'r sefyllfa bod Iesu yn dechrau'r sgwrs gyda gwraig, nid yw'n ymddangos i'r wraig gael ei heffeithio gan hyn, a cheir cadarnhad o hynny am iddi ymateb gyda gonestrwydd i'w gais am ddŵr (ad. 9). Hawdd fyddai diystyru'r wraig oherwydd ei statws o fewn cymdeithas, ond rhaid cydnabod ei bod hithau hefyd yn ymwybodol bod y cyfarfyddiad hwn yn camu i dir gwaharddedig. Gofynna, 'Sut yr wyt ti, a thithau'n Iddew, yn gofyn am rywbeth i'w yfed gennyf fi, a minnau'n wraig o Samaria?' (ad. 9). Gŵyr nad oeddynt i fod i gymysgu, nid yn unig drwy gyfrwng sgwrs, ond hefyd drwy ymwrthod â rhannu'r un llestri (ad. 9). Deillia hyn, yn rhannol, o'r hanes am gwymp Samaria a gofnodir yn 2 Brenhinoedd 17. Pan goncrodd yr ymerodraeth Asyria deyrnas ogleddol Israel, daethant â phobl eraill i boblogi'r wlad: 'Yna daeth brenin Asyria â phobl o Babilon, Cutha, Awa, Hamath a Seffarfaim a'u rhoi yn nhrefi Samaria yn lle'r Israeliaid; cawsant feddiannu Samaria a byw yn ei threfi' (2 Bren. 17:24). Canlyniad hyn oedd bod y cenedl-ddynion yn parhau i addoli duwiau eu mamwlad yn ogystal â Duw yr Israeliaid, felly roedd eu crefyddau yn cael eu cymysgu ac yn datblygu math newydd o Iddewiaeth.¹⁴ O hyn, tyfodd y drwgdeimlad rhwng yr Iddewon a'r Samariaid gan nad oeddynt bellach, yn nhŷ eu cymdogion Iddewig, yn Iddewon pur. Mae'r wraig o Samaria yn amlwg yn ymwybodol o'r hanes a'r tyndra rhwng y ddwy genedl ac felly yn synnu bod Iesu yn gofyn iddi am ddŵr.

¹⁴ R. Phillips, 'Reaching People in Evangelism', <https://www.ligonier.org/learn/articles/reaching-people-evangelism>, gwelwyd 26 Mai 2023.

Caiff y sylwadau ar ddŵr yn Ioan 4 eu defnyddio fel un o'r strategaethau i arwain y wraig at adnabod Iesu. Mae'n amlwg ar ddechrau'r bennod nad yw'r wraig yn ymwybodol â phwy y mae hi'n siarad ag eithrio'r ffaith ei fod yn Iddew, ac mae hi'n nodi yn glir mai Iddew ydoedd yn dilyn ei gais am ddŵr (ad. 9). Adlewyrchir y diffyg adnabyddiaeth pan ddywed Iesu: pe byddai'r wraig yn gwybod, hi fyddai'n gofyn iddo ef am ddŵr (ad. 10). Gwelwn, felly, awgrym cynnar yma fod rôl y ddau yn debygol o newid o ran pwy fydd yn darparu dŵr i'r llall a'r gwahaniaeth yn natur yr hyn sy'n cael ei gynnig i'r wraig, o gymharu â'r dŵr mae wedi arfer ei dynnu yn ddyddiol.

Wedi i Iesu wneud cais am ddŵr, aiff ymlaen i wneud datganiad sy'n troi'r cais ar ei ben, ac ef bellach sydd yn cynnig dŵr i'r wraig. Ceir y cyfeiriad cyntaf at ddŵr bywiol yn adnod 10, sydd yn rhoi gwybodaeth o ran beth yw'r rhodd, gan bwy mae'r rhodd, a phwy yw'r derbynnydd. Dyma enghraifft o Iesu yn ceisio helpu'r wraig i ddeall pwy ydyw. Daw'n fwy amlwg, felly, nad yw'r wraig yn gwybod pwy yw ef oherwydd mae ei hymateb yn tanlinellu hynny (ad. 11). Nid yw'n deall ystyr symbolaidd yr hyn mae Iesu'n ei gynnig, ac mae hi'n cymryd yr hyn mae'n ei ddweud yn llythrennol. Mae'n ddealladwy pam fod y wraig wedi meddwl am ddŵr mewn ffurf faterol, a hynny gan ei bod yn eistedd gerllaw ffynhonnell y dŵr hwnnw. Yr oedd codi dŵr yn y fan hon yn rhan o'i harferiad a'i threfn ddyddiol. Ond canlyniad hynny yw ei diffyg dealltwriaeth o'r dŵr bywiol y mae Iesu'n ei gynnig, sef dŵr mewn ystyr ysbrydol. Oherwydd hynny, nid yw'n deall sut y byddai Iesu'n gallu darparu dŵr iddi, ac yntau heb offer i dynnu'r dŵr o'r ffynnon (ad. 11). Gellir dadlau bod elfen o goegni yma wrth iddi ofyn cwestiwn a fyddai'n gwbl dderbyniol ar lefel lythrennol ac ymarferol.

4.1. Symbolaeth o Ddŵr

Mae Efengyl Ioan yn defnyddio dŵr mewn ffyrdd symbolaidd drwy gydol y naratif. Mae'n debyg na fyddai'r wraig - ar y pwynt hwn yn y naratif - wedi sylweddoli bod y dŵr sy'n cael ei gynnig iddi yn symbol o bresenoldeb Duw. Mae hyn yn adleisio enghreifftiau eraill yn yr Ysgrhythurau pan fo Duw yn ei amlygu ei hun drwy ddarparu dŵr, megis hanes Moses pan fo Duw yn darparu dŵr o'r graig (Exod. 17:1-7), ac yn sicrhau dŵr yfadwy yn Marah (15:23-25). Roedd hyn yn fodd i Dduw brofi ei fod gyda'i bobl trwy ddarparu'r hyn sy'n hanfodol iddynt. Diwallu syched corfforol mae'r dŵr sy'n cael ei ddarparu yn y fan hon ond mae'r ystyr y tu ôl i'r angen i ddiwallu syched yn Ioan 4 yn mynd un cam ymhellach.

Mae'r thema o ddŵr a syched yn mynd law yn llaw â'i gilydd yn hanes y wraig o Samaria. Er eu bod yn cael eu hystyried ganddi ar lefel lythrennol, maent yn fwy na symbol o bresenoldeb Duw. Mae hefyd yn cynrychioli'r angen am berthynas gyda Duw.¹⁵ Mae syched am y dŵr yn arwyddocaol, yn ôl Ioan, oherwydd y dyhead i agosáu at Dduw. Mae'r darlun hwn yn cael ei gynnwys hefyd mewn llyfrau eraill yn yr Ysgrhythurau Iddewig, megis yn Amos 8.11 lle sonnir am y newyn y bydd Duw yn ei anfon 'nid am fara, na syched am ddŵr, ond am glywed geiriau'r Arglwydd'. Gellir cyfeirio hefyd at Salm 63 lle sonnir am yr 'enaid yn sychedu amdanat'. Yma, mae awch i gael perthynas gyda Duw. O ddilyn hanes y wraig o Samaria, gwelir ei hadnabyddiaeth hithau yn tyfu wrth i'r ddeialog fynd yn ei flaen, nes bod ei thystiolaeth yn awgrymu bod y gymuned erbyn y diwedd yn dod i gredu (ad. 39) ac yn awchu i brofi perthynas gyda'r un a gyferchir fel 'gwareddwr y byd' (ad. 42).

¹⁵ Dorothy Lee, *Flesh and Glory: Symbolism, Gender and Theology in the Gospel of John* (Chicago, IL: Independent Publishers Group, 2002), t. 73.

Cysyllta'r wraig y dŵr mae Iesu yn ei gynnig iddi gyda'r dŵr a ddarparwyd gan Jacob i'r Samariaid (ad. 12). Rhoddai'r wraig Iesu o fewn yr un fframwaith a Jacob fel rhoddwyr dŵr, sy'n arwydd o gamddeall y natur symbolaidd.¹⁶ Mae'r ffaith fod Iesu wedi aros wrth y ffynnon drwy gydol yr olygfa yn arwyddocaol. Yma, gwelwn y symbol o hynafiaid y Samariaid ochr yn ochr â chipolwg o'r dyfodol. Cyfeiria'r wraig at Jacob fel 'ein tad ni' (ad. 12). Mae'r naratif bellach wedi symud o'r wraig yn cyfeirio ati ei hun yn unigol i gyfeirio at y genedl gyfan. Dyma'r enghraifft gyntaf lle daw'r wraig i gynrychioli cymuned y Samariaid yn ei chyfanrwydd, rhywbeth a fydd yn digwydd eto erbyn diwedd y bennod.

Gŵyr y wraig am darddiad y dŵr y mae'n ei dynnu bob dydd o'r ffynnon, yn ogystal â phwysigrwydd arwyddocâd hanesyddol a symbolaidd y ffynnon a'i chysylltiad â Jacob. Mae hefyd yn cynrychioli rhywbeth llawer dyfnach iddi hi a'i chyd-Samariaid. Dyna ei rhesymeg dros fynd ymlaen i ofyn a yw ef yn fwy na Jacob (ad. 12). Dywed Hylen yn y cyswllt hwn, 'The woman understands Jacob's well as a source not simply of physical water, but also of religious identity and nourishment for the community'.¹⁷ Dyma oedd y dŵr oedd yn cynnal y gymuned, ond nid yw'r wraig wedi sylweddoli eto bod y dŵr sydd gan Iesu yn mynd i'w chynnal ar lefel llawer dyfnach. Nid yw'r wraig yn cwestiynu gallu Iesu i gael y dŵr bywiol hwn, ond yn hytrach yn gofyn 'o ble, felly, y mae gennyt y dŵr bywiol yma?' (ad. 11). Cwestiynu awdurdod Iesu a wna'r wraig, a cheisio deall beth yw tarddiad y dŵr bywiol hwn.

Mae'n amlwg bod y wraig eisiau gwybod mwy am yr hyn sydd gan Iesu i'w gynnig wrth iddi herio ei awdurdod gan ddefnyddio ffigwr oedd yn cynrychioli awdurdod yn ei thraddodiad ei hun, sef Jacob. Ond heb yn wybod i'r wraig, mae'n ymdrin â chwestiwn canolog am

¹⁶ Gweler Lee, *The Symbolic Narratives of the Fourth Gospel* (Sheffield Academic Press, 1994), t. 74.

¹⁷ Gweler Hylen, *Imperfect Believers*, t. 46.

hunaniaeth Iesu drwy ofyn y cwestiwn a yw ef yn fwy na Jacob a'r patriarchiaid. Er bod hyn yn eironig i'r darllenydd, ni ddylid diystyru'r hyn mae'r wraig yn ei ofyn iddo. Medd Conway, 'the woman's questions seem more suggestive of reasonableness and loyalty to her ancestral traditions than of ignorance'.¹⁸ Ceisia Iesu egluro sut mae'r dŵr bywiol y mae'n ei gynnig yn dra wahanol i'r dŵr mae hi wedi bod yn ei dynnu o ffynnon Jacob yn ddyddiol. Parhau i orfod dod at y ffynnon ddaearol yn Sychar fydd y wraig, ond ni fydd syched ar unrhyw un a fydd yn yfed o'r dŵr bywiol y mae Iesu'n ei gynnig. Dyma'r dŵr sy'n symbol o'r Ysbryd a'r gair (ad. 14), datguddiad a doethineb a ymgnewdrolir yn Iesu ac yn ei roi i'r rhai hynny sydd yn sychedig.¹⁹ Yn hytrach na tharddu o ffynnon ddaearol, bydd y dŵr bywiol hwn yn troi'n ffynnon o ddŵr oddi fewn, gan arwain at fywyd tragwyddol. Dyma'r cam cyntaf wrth i Iesu ddatguddio pwy ydyw mewn gwirionedd. Dywed Lee, 'the image of water is bound up with the question of Jesus' identity',²⁰ sy'n amlygu mai ond drwy dderbyn y dŵr bywiol mae Iesu yn ei gynnig y mae modd dod i wybod ei hunaniaeth gan fod y dŵr yn symbol fod y wraig yn derbyn yr Ysbryd, y gair a'r datguddiad a gynnigir gan fab Duw. Dim ond trwy ddod i ffydd ynddo ef mae dod i adnabyddiaeth a pherthynas lawn â Duw, a hynny'n troi'n allwedd i fywyd tragwyddol.

5. Cymharu gyda'r Ddeialog rhwng Iesu a Nicodemus

Mae'n anodd peidio â chymharu'r ddeialog rhwng Iesu a Nicodemus ym mhennod 3 gyda'r ddeialog â'r wraig ym mhennod 4 gan eu bod yn dilyn ei gilydd ac yn ymdrin â'r un themâu, sef dŵr ac ailenedigaeth (In. 3:5). Mae'r ychydig adnodau cyntaf sy'n cyflwyno'r wraig yn ei gosod mewn gwrthgyferbyniad amlwg â Nicodemus. Nid yn unig y gwyddom ei fod yn ddyn,

¹⁸ Gweler Conway, *Men and Women in the Fourth Gospel*, t. 115.

¹⁹ Gweler Lee, *Flesh and Glory*, t. 76.

²⁰ Dorothy Lee, *The Symbolic Narratives of the Fourth Gospel* (Sheffield Academic Press, 1994), t. 72.

ond hefyd mae'r awdur yn nodi manylion megis ei enw (In. 3:1), y ffaith ei fod yn Pharisead, a bod ganddo statws fel un o'r arweinwyr Iddewig. Nodir hefyd yn hanes y wraig wrth y ffynnon mai canol dydd oedd yr amser (In. 4:6), sef yr amser o'r dydd pan fyddai'r haul boethaf, ac yn amser anarferol i unrhyw un fynd i dynnu dŵr. Gyda hyn, gallwn gyferbynnu'r olygfa gydag Iesu a Nicodemus ym mhennod 3. Yn yr hanes hwnnw, daw Nicodemus at Iesu 'un noson ar ôl iddi dywyllu' (In. 3:1). Wrth ddatgan yr amser ar ddechrau'r penodau, gallwn ddarogan beth fydd canlyniad y sgysiau rhwng y ddau gydag Iesu. Tra bod yna awgrym bod Nicodemus yn llechu yn y cysgodion gan nad yw'n eglur a yw'n dod i gredu ai peidio wrth siarad gydag Iesu ym mhennod 3, mae'r olygfa sydd yn blatfform ar gyfer y sgwrs gyda'r wraig o Samaria yn cael ei osod mewn lleoliad canolog a chyhoeddus lle gall unrhyw un eu gweld. Yr awgrym felly yw bydd y wraig yn canfod y goleuni.

Efallai nad yw'r wraig yn deall yn union beth sy'n cael ei gynnig iddi, ond, yn wahanol i Nicodemus, mae eisiau deall. Yn y ddeialog gyda Nicodemus, gwelwn elfen o wawdio gan Iesu wrth iddo ddweud, 'Atebodd Iesu ef: "A thithau yn athro Israel, a wyt heb ddeall y pethau hyn?"' (In. 3:10). Gan fod Nicodemus yn un o'r arweinwyr Iddewig ac yn ddyn o statws o fewn y gymdeithas Iddewig, mae gan Iesu ddisgwyliadau ohono. Cred y dylai ef fod â mwy o ddeallusrwydd a gwybodaeth i allu dehongli'r hyn mae Iesu yn ei ddweud ar lefel drosiadol. Nid yw Iesu'n ymateb yn yr un ffordd i ddiffyg dealltwriaeth y wraig. Er ei bod hi'n gallu camdeall Iesu, mae loan yn parhau i'w chyflwyno mewn modd ffafriol.²¹ Efallai bod hynny'n deillio o'r ffaith nad oes disgwyl iddi wybod, ond amlinellir mai ei rôl ef yw ei helpu i ddeall. Nid yw'n gwneud sylwadau coeglyd, nac yn ei bychanu, ond yn hytrach fe â ymlaen i geisio egluro mwy am y dŵr bywiol sydd ar gael iddi hi. Mae'r wraig yn cyrraedd pwynt yn y sgwrs

²¹ Gweler Seim, *Roles of Women in the Gospel of John*, t. 58.

Ile nad yw Nicodemus yn cyrraedd – mae hi’n gofyn i Iesu am yr hyn sydd ganddo i’w gynnig (ad. 15) ac mae hynny’n gam yn y cyfeiriad cwir i ddod i ddeall mwy. Felly gwelwn, maes o law, mai canlyniad gwahanol iawn sydd i’r ddwy ddeialog.

Casgliad

Erbyn diwedd y rhan yma o’r olygfa yn Ioan 4, nid oes modd gwybod yn eglur faint mae’r wraig wedi deall. Er ei bod yn dweud, ‘rho’r dŵr hwn i mi, i’m cadw rhag sychedu a dal i ddod i dynnu dŵr’ (ad. 15), mae’n debygol ei bod hi’n parhau i feddwl am y dŵr ar lefel lythrennol. Fodd bynnag, mae’n amlwg bod ei dealltwriaeth yn dyfnhau gan ei bod hi’n dechrau dyfalu a yw Iesu yw fwy na theithiwr Iddewig cyffredin sydd yn ceisio dŵr o’r ffynnon. Dyma a danlinellir yn adnodau 11-12, lle gwelir datblygiad wrth iddi hi newid ei chwestiwn o fod yn ddŵr ganolog i ofyn a yw Iesu o’r un statws â’i hynafiaid. Ond er cydnabod y datblygiad hwn, anodd yw mesur maint a dyfnder ei dealltwriaeth yn y rhan yma o’r ddeialog. Mae hi’n gwybod bod rhinweddau’r dŵr bywiol o natur gwahanol i ddŵr y ffynnon, ond y tebygrwydd yw nad yw hi yn amgyffred gwir rymuster y dŵr hwnnw ar y pwynt hwn o’r naratif.

Pennod 2

Y Safle Sanctaidd (In. 4:16-26)

Mae'r adran hon (ad. 16-26) yn allweddol yn natblygiad dealltwriaeth a ffydd y wraig o Samaria. Yma gwelwn gynnydd mawr yn ei hadnabyddiaeth o Iesu. Defnyddir technegau gan Ioan er mwyn helpu'r wraig i ddod i sylweddoli pwy yw'r Iddew, a thrwy'r dulliau hyn (erbyn diwedd adnod 26) mae'r wraig yn cyrraedd pwynt sydd yn dra gwahanol i'r lefel o adnabyddiaeth sydd ganddi ar ddechrau'r olygfa.

1. Y Pump Gŵr

Gwelwn fod newid sydyn ac annisgwyl ym mhwnc y sgwrs wrth i Iesu symud o drafod y dŵr bywiol i sôn am statws priodasol y wraig. Mae'r shifft yng nghyfeiriad y ddeialog yn tarfu ar lif y sgwrs flaenorol ac yn ymddangos yn rhywbeth gwbl wahanol i'r hyn a drafodwyd yn gynharach. Ond mae'r rheswm dros grybwyll hyn yn allweddol ar gyfer datguddio hunaniaeth Iesu i'r wraig. Dywed Larsen, 'the change in communication leads towards a gradual unveiling'.²² Daw yn amlwg i'r wraig – a'r darllenydd - bod Iesu yn gwybod popeth am ei chefnidir. Ceir patrwm tebyg iawn i'r sgwrs am y dŵr bywiol, lle mae Iesu yn gwneud cais a'r wraig yn ymateb i hynny. Ond y tro hwn, mae'n gofyn iddi alw am ei gŵr a cheir ymateb gonest ganddi wrth iddi ddatgan nad oes ganddi ŵr (ad. 17). Aiff Iesu hefyd ymlaen i ddatgelu ei bod wedi cael pump gŵr, ac nid ei gŵr yw'r cymar sydd ganddi ar hyn o bryd (ad. 18). Yr hyn sy'n

²² Kasper Bro Larsen, *Recognizing the Stranger: Recognition Scenes in the Gospel of John* (Leiden: Brill Publishing, 2008), t. 134.

drawiadol yw nad oes awgrym o feirniadaeth gan Iesu am ei sefyllfa nac unrhyw ymgais ganddo i'w bychanu. Yn hytrach, techneg ydyw gan yr efengyllydd i ddangos i'r wraig bod Iesu yn ei hadnabod. Cawn adlais yma o Ioan 2:25 lle dywed Iesu, 'yr oedd ef ei hun yn gwybod beth oedd mewn dynion'. Hynny yw, mae Iesu am i'r wraig ganfod drosti ei hun ei fod yn meddu ar wybodaeth oruwchnaturiol ynghylch sefyllfaoedd a chymhellion yr unigolyn, ac felly ei fod yn gallu dirnad natur cymeriad.²³ Gellir hefyd ei gymharu â hanes Nathanael yn In. 1:47-51.²⁴ Medd Iesu amdano, 'Dyma Israeliad gwerth yr enw, heb ddim twyll ynddo'. Ar ôl deall bod Iesu wedi ei weld yn myfyrio o dan y goeden ffigys mae'n datgan 'Rabbi, ti ydy mab Duw; ti ydy Brenin Israel' (ad. 49). Gobaith Iesu, drwy rannu'r wybodaeth amdani a dangos ei fod yn gyfarwydd â'i chefnidir, yw y bydd hyn yn anogaeth i'r wraig sylweddoli, fel y gwnaeth Nathanael, ei fod yn llawer fwy nag Iddew cyffredin.

1.1. Symbolaeth y Gwŷr

Er mai defnyddio'r gwŷr fel modd o ddangos adnabyddiaeth o'r wraig sy'n allweddol i'r ddadl hon, ni allwn ddiystyru'r ffaith bod pwnc y sgwrs – o bersbectif datblygiad ei ffydd - yn symbol o rywbeth dyfnach. Gellir dehongli'r cyfeiriad tuag at y 'pump o wŷr' (ad. 18) ar sawl lefel gwahanol.

Yn gyntaf, gellir ei ystyried ar lefel lythrennol, hynny yw, bod Iesu yn datgelu yn blaen ac yn syml bod y wraig wedi cael sawl perthynas. Dyma un o'r adnodau mwyaf dadleuol, un sydd wedi gosod y sail i'r wraig gael ei phortreadu gan rai ysgolheigion fel un sydd â moesau

²³ Desmond Davies, *Cyfres o Esboniadau: Efengyl Ioan* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2005), t. 50.

²⁴ Gweler Larsen, *Recognizing the Stranger*, t.134.

amheus ac, o ganlyniad, yn ei hystyried yn butain.²⁵ Ar y llaw arall, nid oes mwy o wybodaeth am hyn yn cael ei rannu gan yr awdur, ac ni wyddom beth oedd yr amgylchiadau a arweiniodd tuag at y chwâl yn y berthynas. Mae ysgolheigion megis Marianne Thompson yn dangos ychydig mwy o dosturi ac yn awgrymu o bosib ei bod wedi bod mewn sefyllfa tu hwnt i'w rheolaeth a'i bod wedi ysgaru neu'n weddw.²⁶ Efallai nad oedd yn gallu beichiogi a bod hynny wedi arwain at ddirywiad yn y berthynas. Gall y wraig hefyd ymdebygu i Tamar yn Genesis 38, sef gwraig sydd wedi ei chaethiwo i briodas Lefiraidd a bod y dyn diwethaf yn y llinach teuluol wedi gwrthod ei phriodi.²⁷ Ond beth bynnag oedd ei hamgylchiadau, ac os mai bwriad Iesu wedi dweud hyn ar lefel lythrennol, yn sicr nid oes unrhyw feirniadu ac nid oes unrhyw ffocws ar ei phechodau. Mae'n ymddangos bod sylwadau negyddol ysgolheigion ynghylch y wraig yn adlewyrchu barn eu hunain yn ei herbyn gan nad oes sail i hyn o ran testun Efengyl Ioan.

Yn ail, ffordd arall o ddehongli'r cyfeiriad at bump gŵr yw mewn modd alegoriaidd, hynny yw, bod y gwŵr yn ddelwedd o addoliad y Samariaid. Gall yr efengilydd fod yn defnyddio'r gwŵr i gyfeirio at y duwiau eraill roedd y Samariaid yn addoli, yn ôl rhai ffynonellau beiblaidd. Dywedir yn 2 Brenhinoedd 17:29 a 34: 'Yr oedd pob cenedl yn gwneud ei duw ei hun ac yn ei osod yng nghysegr yr uchelfeydd a wnaeth y Samariaid, pob cenedl yn y dref lle'r oedd yn byw...'. Yma mae'n sôn am saith duw a fyddai'n gyffelyb â'r pum gŵr a'r cymar oedd gan y wraig, gan gyfrif Iesu fel y seithfed gŵr potensial.²⁸ Yn yr un modd, mae Joseffws yn tynnu sylw at bump o dduwiau sydd yn cynrychioli'r pum cenedl a ddaeth i mewn i Samaria wedi'r

²⁵ Alicia D. Myers, *Reading John and 1, 2, 3 John: A Literary and Theological Commentary* (Macon, GA: Smyth and Helwys Publishing Inc, 2019), t. 68.

²⁶ Gweler Thompson, *John*, t. 102.

²⁷ Gail O'Day, 'Gospel of John', yn C.A. Newsom, S. H. Ringe a J. E. Lapsley (gol.), *The Women's Bible Commentary*, t. 521.

²⁸ Gweler Mary L. Coloe, 'The Woman of Samaria: Her Characterization, Narrative and Theological Significance', yn Christopher W. Skinner (gol.), *Characters and Characterisation in the Gospel of John*, t. 194.

concwest Asyraidd.²⁹ Yr oedd pob un o'r cenhedloedd wedi dod â'u duw eu hunain i'w addoli ac mae hyn felly yn gyfysytr â phechod yn erbyn Duw. Pwylais sydd yma ar y Samariaid yn addoli duwiau gau, neu o leiaf adlais o'r traddodiad hwnnw. Ceir adlais yma o lenyddiaeth broffwydol Hosea 2:2 yn ogystal: 'Plediwch â'ch mam, plediwch - onid yw'n wraig i mi, a minnau'n ŵr iddi hi?—ar iddi symud ei phuteindra o'i hwyneb, a'i godineb oddi rhwng ei bronnau'. Roedd yn farn Iddewig gyffredinol ynghylch gwraig oedd yn cyd-fyw â dyn nad oedd yn ŵr iddi ei fod yn adlewyrchiad bod eu perthynas presennol gyda Yahweh ddim yn ddilys.³⁰ Hynny yw, nid dyma oedd y wir berthynas gyda Duw ac yr oedd yn dystiolaeth nad ydynt wedi dod i ffydd ac adnabyddiaeth gyflawn ohono.

Y drydedd ffordd o ddehongli'r cyfeiriad at wŷr y wraig o Samaria yw mewn modd symbolaidd. Mae sôn am statws priodasol unwaith yn rhagor yn cysylltu'r testun gyda 'golygfa-teip' ('*betrothal type-scene*').³¹ Mae sôn am briodas a pherthynas yn enghraifft arall o lesu yn cael ei bortreadu fel priodfab. Fel y soniwyd yn gynharach yn y traethawd, gwelwn mewn straeon megis yn Hosea bod y ddelwedd briodasol yn arwydd o berthynas gyfamodol gyda Duw. Ceir awgrym gan loan mai lesu yw'r gwir briodfab a bod Samaria, a'r cyfeiriad at y ffaith nad oes ganddi ŵr ar hyn o bryd, yn symbol o addoliad gau.³² Nid yw Samaria wedi canfod eu gwir berthynas gyda Duw eto, a'r wraig o Samaria yw'r catalydd i'r uniad hwnnw ddigwydd rhwng y Samariaid a'r Iddewon eto a thrwy'r uniad hwn byddent yn dod i ffydd yn Nuw ac adnabyddiaeth ohono drwy lesu.

²⁹ Joseffws, *Hynafiaethau yr Iddewon*, 9.14.31-32. Gweler ymhellach Lincoln, *The Gospel According to St. John*, t.175.

³⁰ Gweler Lincoln, *The Gospel According to St. John*, t. 175.

³¹ Gweler Myers, *Reading John and 1, 2, 3 John*, t. 68.

³² Mary L. Coloe, *God Dwells With Us: Temple Symbolism in the Fourth Gospel* (MN: Liturgical Press, 2001), t. 99.

2. Y Safle Sanctaidd

Yn hytrach na chael ei thaflu oddi ar ei hechel gan yr hyn a ofynnodd Iesu am ei gwŷr a mynd i'w chragen dan gywilydd, mae'r wraig yn gwneud y gwrthwyneb. Aiff y sgwrs ar drywydd gwahanol, i gyfeiriad pwnc dyrys a dadleuol. Gellir dadlau mai ceisio newid y pwnc er mwyn symud i ffwrdd o drafod y gwŷr mae hi, ond mae'n arwydd bod datblygiad pwysig yn digwydd yn y ddeialog. Mae hi'n ei alw'n broffwyd (ad.19) sydd yn dangos ei fod yn ymddiried ynddo ac eisiau mynd â'r sgwrs ymhellach. Yr hyn sy'n drawiadol hefyd yw bod Iesu yn parhau i siarad gyda'r wraig yn hytrach na gyda'r gŵr roedd wedi gofyn iddi ei alw.³³

Ymddengys fod statws priodasol y wraig yn cael ei ddefnyddio fel carreg gamu gan fod y sgwrs yn datblygu i fod yn drafodaeth ddiwinyddol sy'n mynd i'r afael â mater oedd wedi achosi drwgdeimlad rhwng y Samariaid a'r Iddewon, sef lle yw'r gwir fan i addoli Duw. Yn hytrach na Iesu yn holi'r wraig, y wraig sydd bellach yn cymryd awennau'r sgwrs ac yn gofyn cwestiwn i Iesu: 'Yr oedd ein hynafiaid yn addoli ar y mynydd hwn. Ond yr ydych chi'r Iddewon yn dweud mai yn Jerwsalem y mae'r man lle dylid addoli' (ad. 20). Roedd y Samariaid yn disgwyl proffwyd – un a fyddai, yn eu tyb hwy, yn ailddechrau addoli ar fynydd Gerisim. Ond fel y datgelir yn nes ymlaen yn y testun, ei fwriad yw sefydlu ffordd newydd o addoli.³⁴ Ers dechrau'r bennod mae'n glir bod yr awdur yn dymuno portreadu'r wraig mewn modd sy'n dangos bod ganddi ychydig o wybodaeth ddiwinyddol. Mae hyn yn mynd yn groes i awduron rabbinaidd diweddarach sy'n dweud na ddylai merched ddysgu am ddiwinyddiaeth na chynnal sgwrs gyda dyn am ddiwinyddiaeth.³⁵ Gwelwn eisoes bod gan y wraig ddiddordeb a sensitifrwydd ddiwinyddol i'r gwahaniaethau rhwng y ddwy genedl. Er enghraifft, yn adnod 9

³³ Gweler Conway, *Men and Women in the Fourth Gospel*, t. 118.

³⁴ Gweler Thompson, *John*, t. 101.

³⁵ Martin Scott, *Sophia and the Johannine Jesus* (Llundain: Bloomsbury Publishing PLC, 1997), t. 188.

pan fo'r wraig yn ymwybodol na ddylai'r Iddew rannu o'r un llestri a hithau'n Samariad, ac yma, unwaith, eto mae hi'n dangos bod ganddi ryw lefel o ddealltwriaeth o'r hyn sydd yn eu gwahanu. Yn yr un modd ag yr oedd y wraig wedi dweud y gwir am ei sefyllfa ei hun, maes o law bydd hi'n dod i wybod am 'wirionedd' Iesu.

Wrth sôn am 'yr hynafiaid' (ad. 20) mae'r wraig yn cyfeirio eto at Jacob. Fel y gwnaeth wrth drafod y dŵr bywiol (ad. 12), mae hi'n ceisio deall yr hyn sy'n cael ei ddweud drwy bwysu ar rywbeth sy'n gyfarwydd iddi hi. Dyma dechneg a ddefnyddir gan y wraig er mwyn ceisio codi ei lefel o ddealltwriaeth. Gŵyr am hanes a thraddodiadau'r Samariaid a thrwy hyn mae'n ceisio dehongli beth mae Iesu yn ei ddweud wrthi. Tra bod yr Iddewon yn addoli yn Jerwsalem, roedd y Samariaid yn addoli ar Fynydd Gerisim. Yr oedd y deml ar y mynydd hwn wedi cael ei ddinistrio, ond roedd y Samariaid yn dal i wneud defnydd cyson o'r mynydd,³⁶ gan fod arwyddocâd hanesyddol - yn deillio o'r Patriarchiaid - i'r lle hwn. Roedd Gerisim wedi bod yn leoliad i ddigwyddiadau arwyddocaol, megis gweledigaeth Jacob: 'Pan ddeffrôdd Jacob o'i gwsg, dywedodd, "Y mae'n sicr fod yr ARGLWYDD yn y lle hwn, ac ni wyddwn i"' (Gen. 28:16). Roedd hyn yn hollbwysig gyda golwg ar sefydlu canolfan addoli y tu allan i Jerwsalem.³⁷ Gwelwn, felly, awgrym arall o Iesu yn ymdebygu i briodfab, gan adleisio'r modd y daeth Jacob at y ffynnon. Ac o'r undod a sefydlir gan Iesu, bydd disgynyddion Jacob yn cael eu huno mewn modd nad oedd yn bosibl i Jacob.³⁸ Mae'r wraig yn cyfeirio at Jacob fel 'ein tad ni' (ad. 12), yn yr un modd ag y byddai'r Samariaid yn cyfeirio at eu hynafiaid neu eu cyndadau. Ond yma mae Iesu yn tanseilio hynny wrth sôn am y Tad dwyfol.³⁹ Cyfeiria Iesu deirgwaith yn y cyswllt

³⁶ Gweler Davies, *Efengyl Ioan*, t. 51.

³⁷ Gweler Scott, *Sophia and the Johannine Jesus*, t. 189.

³⁸ James F. McGrath www.bibleodyssey.org/ask-a-scholar/woman-at-the-well/, gwelwyd Mawrth 2023.

³⁹ Gweler Conway, *Men and Women in the Fourth Gospel*, t. 120.

hwn at 'y Tad' (ad. 21, 23) sy'n pwysleisio'r neges mae'n ceisio ei gyfleu, sef mai dim ond drwy'r Tad dwyfol y bydd modd profi y gwir ffordd o addoli.

Wrth i Iesu ddatgan ei fod yn gwybod bod y wraig wedi cael pump gŵr, mae'n dangos ei fod yntau yn adnabod y wraig yn hytrach na'i bod hi yn meddu adnabyddiaeth ohono ef. Ond erbyn hyn mae hi'n chwilio am fwy o wybodaeth ganddo ef. Mae geiriau Iesu, 'y mae amser yn dod' (ad. 21, 23), yn peri iddo ragfynegi yr hyn sydd i ddod yn ystod y broses yma o ddatgelu a chael adnabyddiaeth o Iesu.⁴⁰ Wrth iddo egluro bod amser yn dod pan na fydd lleoliad (daearyddol) penodol i addoli, ceir yr awgrym cyntaf o feirniadaeth ynghylch y Samariaid: 'Yr ydych chi'r Samariaid yn addoli heb wybod beth yr ydych yn ei addoli' (ad. 22). Nid oedd mynydd Gerisim yn cael ei ystyried gan yr Iddewon ar yr un lefel gysegredig â Jerwsalem.⁴¹ Yn y deml yn Jerwsalem yr oedd y gwyliau Iddewig yn cael eu cynnal, ac yn y deml yn ogystal y cynhaliwyd digwyddiadau a ddefnyddiwyd gan loan fel cyfeiriadau symbolaidd at Iesu. Er enghraifft, yn loan 2:13-22 sonnir am y deml yn cael ei chodi mewn tridiau, 'ond sôn yr oedd ef am deml ei gorff' (ad. 21).

Mae'r darlennydd yn ymwybodol bod crescendo yn perthyn i'r sgwrs erbyn hyn. Dyma lle mae Iesu'n egluro beth yw *gwir* addoliad. Meddai Seim, 'It's not an accident that the main issue of conversation is the replacement of worship'.⁴² Mae hyn unwaith eto yn atgoffa'r darlennydd o fwriad dwyfol Iesu o geisio mwy o ddilynwyr. Yma cawn binacl y drafodaeth pan fo Iesu'n datgan na fydd man penodol i addoli mwyach, ond yn hytrach y bydd 'gwir addolwyr yn addoli'r Tad mewn ysbryd a gwirionedd' (ad. 23). Ers dechrau'r bennod mae wedi dod yn amlwg bod Iesu yn croesi ffiniau gwleidyddol, crefyddol a chymdeithasol drwy siarad gyda'r

⁴⁰ Gweler Larsen, *Recognizing the Stranger*, t. 135.

⁴¹ Gweler Lee, *Symbolic Narrative of the Fourth Gospel*, t. 80.

⁴² Gweler Seim, *Roles of Women in the Gospel of John*, t. 68.

wraig, ond bellach mae hefyd yn chwalu ffiniau er mwyn paratoi ar gyfer ffordd newydd o addoli (ad. 9). Mae'r ffaith ei fod yn siarad gyda gwraig o Samaria yn dangos ei fod yn ceisio cynnwys pobl o dras ethnig gwahanol yn ei weinidogaeth ac, yn yr un modd, bydd y math newydd o addoliad yn fodd i gynnwys pawb.⁴³ Ni fydd pobl yn addoli mewn mannau gwahanol, ond yn hytrach bydd pawb yn cael eu gwahodd i addoli mewn ysbryd a gwirionedd.

Nid lle daearyddol fydd y gwir man o addoli, ond yn hytrach rhaid addoli mewn ysbryd a gwirionedd; er mwyn gallu gwneud hynny bydd yn rhaid derbyn Iesu. Ceir adlais yma o Ioan 3:5, 'Atebodd Iesu: "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyf, oni chaiff rhywun ei eni o ddŵr a'r Ysbryd ni all fynd i mewn i deyrnas Dduw"'. Dengys mai dim ond ynddo ef a thrwyddo ef y gellir cyflawni amcanion Duw.⁴⁴ Enghraifft arall yw datganiad Iesu yn Ioan 4:14, lle mae'n egluro mai dim ond trwyddo ef bydd y dŵr yn 'troi yn ffynnon o'i fewn, yn ffrydio i fywyd tragwyddol'.

3. 'Myfi yw'

Canlyniad y ddeialog hon yw bod y wraig yn dweud, 'Mi wn fod y Meseia yn dod. Pan ddaw ef, bydd yn mynegi i ni bob peth' (ad. 25). Dyma gyrraedd uchafbwynt yn natblygiad ffydd y wraig yn ystod ei hymgyfarfyddiad â Iesu. Roedd y Samariaid yn disgwyl proffwyd yn hytrach na brenin i ddod i deyrnasu arnynt.⁴⁵ Eu gobaith oedd cael proffwyd fel Moses a fyddai'n dod i ddweud wrth y bobl beth i'w wneud. Daw'r disgwyliad hyn o Deuteronomium 18:15-18, 'Bydd yr ARGLWYDD dy Dduw yn codi o blith dy gymrodyr broffwyd fel fi, ac arno ef yr wyt i wrando... codaf iddynt o blith eu cymrodyr broffwyd fel ti, a rhof fy ngair yn ei enau, er mwyn iddo fynegi iddynt y cwbl y byddaf yn ei orchymyn iddo'. Mae'r hyn a ddisgrifir gan y wraig

⁴³ Ibid, t. 68.

⁴⁴ Gweler Davies, *Efengyl Ioan*, t. 52.

⁴⁵ Gweler Thompson, *John*, t.105; Lincoln, *The Gospel According to St. John*, t. 178.

yn adnod 25 yn cysylltu â'r hyn a ddywed wrth y Samariaid yn adnod 29, 'Dewch i weld y dyn a ddywedodd wrthyf bopeth yr wyf wedi ei wneud'. Mae Iesu'n cadarnhau bod ganddo rinweddau'r Meseia a ddisgwylir gan y Samariaid. Roedd Moses hefyd, fel Iesu, yn athro ac yn broffwyd ond roedd Iesu gymaint mwy na Moses, 'Oherwydd trwy Moses y rhoddwyd y Gyfraith, ond gras a gwirionedd, trwy Iesu Grist y daethant' (In. 1:17). Mae Iesu ei hun hefyd yn In. 5:46-7 yn cyfeirio at y gwahaniaeth rhyngddo ef a Moses, 'Pe baech yn credu Moses byddech yn fy nhredu i, oherwydd amdanaf fi ysgrifennodd ef', ac felly yn pwysleisio ei farwedd o gymharu a Moses.

Mae'n eironig bod y wraig yn sôn am y Meseia fel rhywun a fydd yn dod yn y dyfodol i egluro popeth, oherwydd mae'r amser bellach wedi cyrraedd. Mae'n amlwg o'r hyn a ddywed Iesu am ei gwŷr a'r gwir man addoliad, ei bod wedi cael ei hatgoffa o'r nodweddion y proffwyd y disgwylent amdano. Ond mae'n debyg nad yw wedi deall na sylweddoli bod yr hyn mae yn ddisgwyl amdano yn y dyfodol bellach wedi cyrraedd ym mherson Iesu. Mae posibilrwydd ei bod wedi amau ei hunaniaeth, ond nid yw'n gwbl argyhoeddiedig mai dyma'r Meseia sy'n meddu ar berthynas arbennig â Duw.

Mae'r wraig yn mynegi ei ffydd mewn ffigwr a fydd yn datgan popeth wrthynt yn adnod 25 ac yn yr adnod sy'n dilyn mae Iesu yn honni mai ei yw'r ffigwr hwnnw. Mae Iesu yn fwy na'r proffwydi eraill am ei fod yn gallu darogan yr hyn sydd i ddod; ynddo ef a thrwyddo ef ymae Duw yn ei ddatguddio ei hun ac yn ceisio dilynwyr. Gall Meseia sy'n un gyda Duw ddatgan hunan-ddatguddiad ysbrydol. Fel mewn golygfeydd-teip eraill (*'betrothal type-scene'*) mae dieithryn yn datguddio ei hunaniaeth, a dyma a wna Iesu. Serch hynny, er ei fod yn cydsynio gyda'r hyn a ddisgwylir gan y wraig o Samaria, caiff ei bortreadu fel un sydd yn gymaint mwy na hynny.

Er ei fod yn ymddangos bod Iesu yn datgelu i'r wraig pwy ydyw, rhaid tynnu sylw at y ffaith nad yw Iesu'n ailadrodd y teitl Meseia i gadarnhau yn glir mae ef ydyw wedi i'r wraig sôn am yr hyn mae'r Samariaid yn eu ddisgwyl. Nid oes rheidrwydd arno i ddatgan mai ef yw'r Meseia, ond mae absenoldeb y teitl yn ei ymateb iddi yn cynnig cyfle i ddehongli ei eiriau yn wahanol. Yn groes i weddill y ddeialog, mae adnodau 19 a 25, sef yr achysuron hynny pan fo'r wraig yn mentro cyfeirio at Iesu wrth deitl, yn datgelu nad Iesu'n herio nac yn ymateb yn feriniadol i'r hyn a ddywed y wraig.⁴⁶ Gwelwn mewn mannau eraill yn y sgwrs fod Iesu yn barod i ymateb i'r hyn sydd gan y wraig i ddweud, megis wrth egluro'r dŵr bywiol (ad. 13) a phan fo'n sôn am y gwir modd o addoli (ad. 23).⁴⁷ Yr hyn sy'n drawiadol yw bod eraill yn Efengyl Ioan yn ei alw yn Feseia ond mae'n gwrthod cydnabod y teitl. Er enghraifft gofynn rhai o drigolion Jerwsalem, 'Tybed a yw'r llywodraethwyr wedi dod i wybod i sicrwydd mai hwn yw'r Mesia?' (In. 7:26). Yn yr un modd, mae'r Iddewon tra yn dathlu gwyl y Cysegru yn Jerwsalem yn gofyn iddo, 'Am ba hyd yr wyt ti am ein cadw ni mewn ansicrwydd? Os tydi yw'r Meseia, dywed hynny wrthym yn blaen' (In. 10:24). Nid yw Iesu'n ymateb i'r teitl ar yr adegau hyn ond mae'n ymddangos ei fod yn cadarnhau mai ef yw'r Meseia wrth y wraig o Samaria. Yn ôl Coloe, 'This woman has used the term in a way that reaches beyond such expectations and so Jesus can accept the title she proposes, even as he challenges her to a deeper perception of him as the human presence in the world I AM.'⁴⁸ Fel rydym wedi gweld yn gynharach yn y testun (ad. 13,18,23) ceir ymdeimlad bod Iesu yn ceisio annog a helpu'r wraig i ddod i ddealltwriaeth dyfnach ohono. Mae Iesu wedi gweld cynnydd yn ei lefel o adnabyddiaeth ohono ac felly yn

⁴⁶ Catrin H. Williams, 'Samaritan Hopes and Scriptural Promises: Engagement with Samaritans and Samaritan Issues in John 4' yn R.A. Culpepper a J. Frey (gol.) *Expression of Johannine Kerygma in John 2:23-5:18* (Germany: Mohr Siebeck Publishing, 2019), t. 122.

⁴⁷ Gail O'Day, *Revelation in the Fourth Gospel: And Eight Johannine Essays* (Eugene, OR: Wipf and Stock, 2021), t. 73.

⁴⁸ Gweler Coloe, *God Dwells with Us*, t. 106.

gwerthfawrogi'r ymdrech a wna'r wraig yn ystod y sgwrs i geisio gwybod mwy amdano trwy ei holi. Eto, wrth gymharu'r olgyfa hon gydar un pan fo Iesu yng nghwmni Nicodemus, rhywun oedd Iesu yn disgwyl i wybod yn well, mae'r cynnydd mae'r wraig wedi wneud i'w edmygu ac mae eisiau ei herio gam ymhellach drwy weld beth fyddai ei ymateb iddo'n datgan 'Myfi yw' (ad. 26).

Serch hynny, er nad yw Iesu'n ailadrodd yr hyn ddywed y wraig, dylid nod yn yr un modd nad yw Iesu yn ailrodd geiriau'r y wraig pan fo hi'n cyfeirio ato fel proffwyd (ad. 19). Mae'r ffaith iddo ddweud, 'Myfi yw, sef yr un sy'n siarad â thi' (ad. 26), yn ddigon iddi sylweddoli ei bod ym mhresenoldeb ffigur sydd yn fwy na phroffwyd cyffredin. Yma, mae'n rhoi ei datganiad fwyaf clir o'i statws feseianaidd.⁴⁹ Dywed Gail O'Day, 'Jesus is not confirming that he is the Messiah expected by Samaritan woman but is using *egō eimi* in its fullest sense to identify God's revealer'.⁵⁰ Yn sicr, mae'r datganiad hwn yn ddigon i'r wraig adael yr hyn oedd yn ei wneud er mwyn mynd i'r dref i ddatgan y newyddion wrth eraill. Dengys hyn ei fod wedi rhannu digon gyda'r wraig er mwyn iddi gredu bod y proffwyd mae'r Samariaid yn ddisgwyl amdano wedi dod. Serch hyn, mae'n anodd mesur a yw'r wraig wedi deall ei fod yn broffwyd sydd yn un gyda Duw. Er bod Iesu'n ymgorffori rhai agweddau o gred y Samariaid, mae hefyd yn rhagori arnynt.⁵¹ Dim ond trwy roi categorïau megis Samariaid neu Iddew i'r naill ochr ac ymateb i Iesu yn nhermau ei hunan-ddatguddiad y gellir deall yn llawn pwy yw'r un sy'n 'siarad a thi' (ad. 26). Aiff O'Day ymlaen i ddweud '...Jesus is the fulfilment of all these expectations, but he is caught up in none of them'. Mae'n debygol nad yw'r wraig wedi llawn amgyffred yr hyn mae Iesu yn ei gynrychioli. Mae tystiolaeth y wraig a'r weithred o rannu ei phrofiad gydag

⁴⁹ Gweler Conway, *Men and Women in the Fourth Gospel*, t. 121.

⁵⁰ Gweler O'Day, *Revelation in the Fourth Gospel*, t. 72.

⁵¹ Gweler O'Day, *Revelation in the Fourth Gospel*, t. 73.

eraill yn cyflawni'r cynllun dwyfol a barodd i Iesu fynd drwy Samaria (fel y gwelwn nes ymlaen yn y traethawd).

Mae'n arwyddocaol mai dyma'r defnydd cyntaf o'r ymadrodd 'Myfi yw' (egō eimi) yn Efengyl Ioan⁵² Mae'n drawiadol hefyd ei fod yn defnyddio'r ymadrodd ym mhresenoldeb gwraig sydd ar gyrion cymdeithas yn ogystal â bod yn un o'r Samariaid. Fel rwyf wedi crybwyll eisoes, mae Iesu wedi cael mwy nag un cyfle i gadarnhau mai ef yw'r Meseia ac mae yn dewis gwneud hynny yng nghwmni'r wraig hon. Gellir cysylltu rhan gyntaf y ddeialog ym mhennod 4 gyda adnod 26. Yn adnod 9 mae'r wraig yn cydnabod ei fod yn Iddew ond mae'n amlwg nad yw'n gwybod mwy amdano. Aiff Iesu ymlaen i ddweud, 'Pe bait yn gwybod beth yw rhodd Duw, a phwy sy'n gofyn iti, "Rho i mi beth i'w yfed"...' (ad.10). Felly, yn adnod 26, mae Iesu yn datguddio mai ef [y Meseia] yw'r 'un sy'n siarad â thi'.

Gellir cymharu'r tebygrwydd rhwng yr olygfa hon ac ymateb Iesu wrth siarad gyda'r dyn dall sy'n cael ei iachau.⁵³ Gofynna Iesu wrth y dyn 'A wyt ti'n credu ym Mab y Dyn?' (In. 9:35) ac yn hytrach na chadarnhau hynny gan roi ateb pendant, mae Iesu'n dweud, 'Yr wyt wedi ei weld ef. Yr un sy'n siarad â thi, hwnnw yw ef' (In. 9:37). Dyma enghraifft o unigolyn arall yn Efengyl Ioan yn dod i ffydd wedi i Iesu gadarnhau mai ef yw Mab y Dyn. Yn wahanol i'r wraig o Samaria, mae'r dyn sydd wedi ei iachau yn cyffesu i Iesu ei fod yn credu ynddo (In. 9:38). Mae'r ymateb ym mhennod 4 yn darogan adegau eraill yn yr naratif pan fo Iesu yn datguddio ei hunaniaeth ddwyfol. Ym mhennod 8 dywed Iesu wrth yr Iddewon, 'Dyna pam y dywedais wrthyh y byddwch farw yn eich pechodau; oherwydd marw yn eich pechodau wnewch, os na chredwch mai myfi yw' (8:24). Yn ogystal â hyn, 'Felly dywedodd Iesu wrthynt, "Pan

⁵² Gweler Schneiders, *Written that you may believe*, t. 102.

⁵³ Gweler Catrin H. Williams, *'Samaritan Hopes and Scriptural Promises'*, t. 128.

fyddwch wedi dyrchafu Mab y Dyn byddwch yn gwybod mai myfi yw, ac nad wyf yn gwneud dim ohonof fy hun, ond fy mod yn dweud yr union bethau y mae'r Tad wedi eu dysgu imi' (8:28). Gwelir drwy'r efengyl bod sgysiau bob dydd yn meddu haenau gwahanol ac mae nifer o gliwiau o fewn y naratif sy'n cyfleu Iesu, fel dywed Catrin Haf Williams yn nhermau 'the agent and embodiment of God's self-revelation'.⁵⁴

Casgliad

Er ei fod yn bwysig i werthfawrogi symbolaeth y cyfeiriadau at amrywiol wŷr y wraig o Samaria, mae'r rheswm dros ddefnyddio'r dechneg hon yn allweddol wrth geisio dirnad y datblygiad yn ffydd y wraig. Gwelwn fod dau nodwedd i'r sgwrs hwn. Yn gyntaf, mae'n dangos gallu Iesu i weld a gwybod popeth, sy'n thema flaenllaw yn Efengyl Ioan, fel y soniwyd eisioes (cymh. In. 2:25). Ac yn ail, mae'n achlysur o hunan-ddatguddiad Iesu i'r wraig, a hithau'n dod i'w weld mewn modd cwbl newydd. Dywed O'Day, 'This exchange between Jesus and the Samaritan woman about her husbands does not delegitimize the woman because of her supposed immorality but instead shows the woman's growing faith'.⁵⁵ Mae'r rhan yma o'r ddeialog rhwng Iesu a'r wraig o Samaria yn cyrraedd y pinacle yn adnod 18, a gwelwn gam mawr ymlaen yn lefel adnabyddiaeth y wraig o Iesu wrthi iddi ddatgan 'rwy'n gweld dy fod ti'n broffwyd' (ad. 18). Trwy rannu'r hyn y mae'n ei wybod am Iesu, mae'r wraig yn dechrau sylweddoli nad dyn cyffredin mo hwn. Caiff safbwynt O'Day hefyd ei gadarnhau gan Moloney pan ddywed, 'it is in this discussion which moves the woman from the initial "no faith"

⁵⁴ Gweler Catrin H. Williams, *'Samaritan Hopes and Scriptural Promises'*, t. 129.

⁵⁵ Gail O'Day, 'Gospel of John' yn C.A. Newsom, S. H. Ringe a J. E. Lapsley (gol.), *The Women's Bible Commentary*, t. 522.

position to one of “incomplete faith”.⁵⁶ Yn sicr, mae’n deg i ddweud nid oes unrhyw adnabyddiaeth o Iesu ar y dechrau ond pan elwir Iesu’n broffwyd, mae datblygiad yn ei ffydd am ei bod wedi profi ei allu i fod yn holl wybodus.

Pan fo Iesu yn datgelu ei fod yn gwybod am ei gwŷr, nid yw’r wraig yn ceisio amddiffyn ei hun nac yn gwadu ei sefyllfa ond yn hytrach yn defnyddio’r ffaith ei fod yn broffwyd i lywio’r sgwrs tuag at drafod pwnc diwinyddol. Mae’r wraig yn sylweddoli ei fod yn meddu ar nodweddion hollwybodus, ac felly mae’n gweld ei chyfle i’w holi am bwnc sydd wedi achosi rhwyg rhwng yr Iddewon a’r Samariaid, yn y gobaith y bydd yn gallu taflu goleuni ar y gwir le i addoli. Cyn hyn, cyfeiria’r wraig at Iesu fel ‘Syr’ (ad. 11, 15) a gwŷr ei fod yn Iddew, ond mae bellach wedi sylweddoli ei fod yn broffwyd ac felly yn rhywun sydd yn gallu siarad ar ran Duw.⁵⁷ Gwelwn, felly, bod ei gydnabod yn broffwyd yn gynnydd sylweddol o gymharu â lefel ei hadnabyddiaeth ohono ar ddechrau’r olygfa wrth y ffynnon.

Yn adnodau 16-26 gwelwn drobwynt yng nghynnydd ffydd, adnabyddiaeth a dealltwriaeth y wraig o eiriau Iesu. O’i gymharu â dechrau pennod 4, mae’r wraig wedi symud o beidio â gwybod unrhywbeth am yr Iddew dieithr, i holi ai ef yw’r Meseia. Dywed Maccini yn y cyswllt hwn, ‘If John had wanted to present her as firmly believing in Jesus as the messiah, he would have stated it as unequivocally as he did her belief in Jesus as prophet’.⁵⁸ Hynny yw, dyma hanes am ddatguddiad sy’n cael ei ddadbacio ac o ffydd sy’n dyfnhau. Mae’r efengyllydd yn cynnig cyfle i’r darllenwyr ddehongli y modd y mae’r wraig yn ymateb i Iesu.

⁵⁶ Francis J. Moloney, ‘From Cana to Cana (Jn. 2.1-4.54) and the Fourth Evangelist’s Concept of Correct (and Incorrect) Faith’ yn E.A. Livingstone (gol.), *Studia Biblica 1978 International Congress on Biblical Studies* (Sheffield: University of Sheffield Press, 1978), t. 198.

⁵⁷ Gweler Larry Jones, *The Symbol of Water in the Gospel of John* (Llundain: Bloomsbury Publishing Plc, 1997), t.102.

⁵⁸ Robert G. Maccini, *Her Testimony is True: Women as Witnesses according to John* (Llundain: Bloomsbury Publishing, 1996), t.121.

Gwelir, felly, fod gwybodaeth a ffydd y wraig wedi cael ei gyd-blethu â'i gilydd yn Ioan 4. Enghreifftiau o hyn yw'r gyfochredd sy'n bodoli rhwng y bennod hon a hanes Nicodemus yn ogystal â hanes Nathanael (ymhelaethir ar hyn yn nes ymlaen y traethawd). Mae pynciau amrywiol yn cael eu trafod, a hynny'n arwain yn eu tro at ddatguddio pellach o hunaniaeth Iesu. Ceir canlyniad deublyg i hyn, sef adeiladu pellach yn natblygiad ffydd y wraig, a chmau pellach yn hunan-ddatguddiad Iesu.

Mae'r adeiladwaith a geir ym mhennod 4 yn enghraifft o ddull cywrain Ioan i ddefnyddio'r cydblethiad rhwng gwybodaeth a ffydd i arwain at ddatguddiad llawn o Iesu'r Meseia. Gwelwyd hyn eisoes yn y Prolog, yn enwedig yn y datganiad bod Gair oedd wedi bodoli o'r cychwyn yn awr yn dod yn gnawd. Ym mhennod 4, mae'r datblygiad hwn yn cyrraedd lefel newydd gyda'r defnydd cyntaf o'r datganiad 'Myfi yw' (ad. 26). Dyma'r datganiad fwyaf clir o'r ddelwedd Feseanaidd⁵⁹ ond hefyd dwyfol, ac mae'n arbennig o arwyddocaol fod hyn yn digwydd pan fo Iesu yn trafod gyda gwraig o Samaria.

Trwy'r bennod, mae'r efengyllydd wedi adeiladu ar hyn sy'n cael ei ddatgelu ond mae'n anodd casglu a yw gwybodaeth a ffydd y wraig wedi datblygu a chyrraedd ei lawn dwf. Dywed Lee, 'Jesus accepts the limited nature of the woman's understanding... Jesus play on the image she has introduced (v.20). He transforms it from a geographical concept to a symbol of eschatological life'.⁶⁰ Ond yn sicr, nid oes amheuaeth fod datblygiad yn nealltwriaeth y wraig erbyn adnod 25, a'r datblygiad hwn yn fodd i'w thywys yn nes at y gwirionedd am bwy yw Iesu, y Meseia. Medd Hylan 'She nevertheless makes a good attempt at relating what Jesus said to what she knows, Jesus seems to understand this as a positive thing because he

⁵⁹ Gweler Conway, *Men and Women in the Fourth Gospel*, t. 121.

⁶⁰ Gweler Lee, *Symbolic Narrative of the Fourth Gospel*, t. 79.

responds by identifying himself as the Messiah'.⁶¹ Mae Iesu'n cydnabod bod cynnydd wedi bod yn lefel adnabyddiaeth y wraig ohono, mae hefyd yn gwerthfawrogi bod y wraig yn gwneud ei gorau i geisio deall wrth ofyn cwestiynau a'i holi ymhellach. Gellir gweld y gwahaniaeth rhwng yr olygfa hon a'r sgwrs gyda Nicodemus gan nad oedd yntau wedi gwneud gwir ymdrech i amgyffred yr hyn yr oedd Iesu yn ei ddatgelu iddo.

⁶¹ Susan Hylen, *Imperfect Believers*, t. 52.

Pennod 3

Y Cynhaeaf (In 4:27-42)

1. Y Disgyblion yn Dychwelyd

Ynghanol y tensiwn a'r ddrama o Iesu yn datgan mai ef yw'r un y disgwyliai'r Iddewon a'r Samariaid amdano (ad. 25-26), mae'r disgyblion yn dychwelyd o'r dref ac yn torri ar draws ei sgwrs gyda'r wraig. Nid yw hi'n cael cyfle i ymateb i fawredd yr hyn mae Iesu wedi'i rannu gyda hi ac nid yw'n eglur chwaith a yw hi'n deall ei eiriau yn llwyr gan nad yw'n ymateb i ddatganiad Iesu. Fel y nodir yn adnod 8, mae'r disgyblion wedi bod yn y dref i brynu bwyd ac felly yn amlygu'r ffaith bod Iesu a'r wraig ar eu pennau eu hunain. Gan nad oedd y disgyblion ar gael i nôl diod iddo, dyma oedd ddechrau ar y sgwrs gyda'r wraig pan ofynnodd Iesu iddi, 'rho i mi beth i'w yfed' (ad. 7). Gyda dychweliad y disgyblion, daw'r ddeialog i ben.

Daw sawl thema bwysig i'r amlwg yn adnod 27, a dyma'r unig adeg yn y bennod lle mae awgrym o feirniadaeth tuag at y wraig, a hynny gan y disgyblion yn hytrach na Iesu. Mae'n drawiadol eu bod yn synnu bod Iesu yn siarad gyda gwraig. Hynny yw, synnu y maent oherwydd ei rhyw yn hytrach na'r ffaith ei bod hi'n dod o dras Samariaidd, sef yr hyn oedd wedi ei synnu hi ar y dechrau (ad. 9).⁶² Mae'r disgyblion yn dawedog ac yn ymatal rhag cwestiynu Iesu am ei weithredoedd. Mae'n bosib mai cymhelliad loan yn y cyswllt hwn yw peidio â rhoi'r argraff bod y disgyblion yn feirniadol o Iesu. Dengys hyn pa mor anarferol oedd agwedd Iesu tuag at ferched, sef ei fod yn cyfathrebu mewn lle cyhoeddus gyda gwraig. Ni wŷr y disgyblion, wrth gwrs, beth oedd hyd y sgwrs rhyngddynt na'r materion dyrys a dadleuol

⁶² Gweler Seim, *Roles of Women in the Gospel of John*, t. 59.

a drafodwyd ganddynt. Gallwn wrthgyferbynnu tawelwch y disgyblion gyda chwestiynau cyson y wraig i Iesu. Dywed O'Day yn y cyswllt hwn, 'one important aspect of her response was that through her often blunt questioning she remained engaged in dialogue with Jesus... such engagement and participation are central elements in the revelatory process'.⁶³ Trwy ddyfalbarhad y wraig a'i chwilfrydedd, caiff wybod mwy am hunaniaeth Iesu. Ar y pwynt hwn, mae'r disgyblion fel petaent yn arsylwi'r hyn sy'n digwydd.

Nid yw Ioan yn datgelu beth sydd yn mynd trwy feddwl y wraig wedi datganiad Iesu yn adnod 26, ond mae awgrym ei bod wedi cynhyrfu ac ar dân i rannu'r hyn mae wedi tystio iddo gan ei bod hi'n gadael ei hystên ac yn dychwelyd i'w phentref. Mae'r olygfa wedi newid lleoliad am ennyd, sef o'r ffynnon i ganol dref Sychar lle mae'r wraig yn dweud ei phrofiad wrth y bobl yno (ad. 28). Mae ysgolheigion megis Thomas Brodie yn cynnig bod symbolaeth yn perthyn i weithred y wraig o adael ei hystên ar ôl: 'having found a new form of living water, she leaves behind her the symbol of her former preoccupation'⁶⁴. Yr awgrym yw mai dyma'r ymateb priodol i ddatguddiad Iesu. Mae'r wraig bellach wedi profi o'r dŵr bywiol ac nid oes arni syched mwyach. Dengys hyn ei bod wedi symud o'r llythrennol i'r delweddol wrth i'w dealltwriaeth o Iesu ddyfnhau.⁶⁵

Gellir cymharu'r weithred o adael yr ystên gyda storïau eraill yn y traddodiad Synoptig pan fo cymeriadau eraill yn gadael rhywbeth ar ôl.⁶⁶ Er enghraifft, yn ôl Marc 1:17-18: 'Dyweddodd Iesu wrthynt, "Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion". A gadawsant eu rhwydau ar unwaith a'i ganlyn ef'. Yma mae'r pysgotwyr yn gadael eu rhwydi er mwyn dilyn Iesu. Maent

⁶³ Gweler O'Day, *Revelation in the Fourth Gospel*, t. 74.

⁶⁴ Thomas L. Brodie, *The Gospel According to John: A Literary and Theological Commentary* (Oxford University Press, 1998), t. 224.

⁶⁵ Gweler Lee, *The Symbolic Narratives of the Fourth Gospel*, t. 85.

⁶⁶ Gweler Scott, *Sophia and the Johannine Jesus*, t. 193.

hwythau hefyd yn gadael rhywbeth roeddent yn ei ddefnyddio fel tasg ddyddiol er mwyn troi at dasg arall, amgenach. Yn yr un modd ag y mae'r wraig o Samaria yn gadael ei hystên a ddefnyddiai i gasglu dŵr yn ddyddiol gan ei bod bellach wedi profi o'r dŵr bywiol, mae'r pysgotwyr hefyd yn gadael eu rhwydi er mwyn dod yn bysgotwyr dynion. Gwelwn sut mae gwrthrychau pob dydd a chyfarwydd yn cael eu defnyddio a'u gadael ar ôl er mwyn cyfathrebu neges ddwyfol.

Er bod modd dehongli gweithred y wraig o adael yr ystên mewn modd symbolaidd, mae ysgolheigion megis Robert Maccini yn cynnig rhestr o resymau mwy ymarferol, megis ei ei bod hi'n anghofio'r ystên mewn brys neu ei bod yn bwriadu dychwelyd i'w nôl neu ei bod ddim ei angen mwyach.⁶⁷ Mae hefyd, yn wahanol i Martin Scott, yn credu bod mwy o wahaniaeth yn hytrach na thebygrwydd rhwng hanes y wraig o Samaria a'r disgyblion yn ôl efengyl Marc, gan nad oedd y wraig wedi derbyn galwad yn yr un modd ag yr oedd y pysgotwyr yn gadael eu gwaith dyddiol i ddilyn Iesu. Ar ôl dweud hynny, mae'n amlwg bod cynnwys y sgwrs rhwng y wraig a Iesu wedi bod yn ddigon o sbardun iddi fynd i rannu ei phrofiad gyda thrigolion eraill y dref. Daw yn amlwg ei bod wedi cyrraedd lefel newydd o ddealltwriaeth a'i bod am i eraill gael profi Iesu drostynt eu hunain (ad. 28). Er i'r sgwrs rhyngddynt fod yn rhywbeth preifat a phersonol ar y dechrau (ad. 7-8), mae hi bellach yn awyddus i rannu datguddiad Iesu gyda'i chyd-Samariaid. Er nad yw manylion y sgwrs yn cael ei ddatgelu, mae ei thystiolaeth hi yn ddigon i beri iddynt weithredu a mynd at y ffynnon i weld Iesu drostynt eu hunain (ad. 39).

Mae adnod 29 yn adleisio adnodau 16-19, sef trobwynt y sgwrs ar ran y wraig. Wrth i Iesu ddatgelu ei fod yn gwybod popeth amdani, mae hithau'n sylweddoli bod gan yr Iddew hwn

⁶⁷ Gweler Maccini, *Her Testimony is True*, t. 141.

allu oruwchnaturiol. Yma, mae'r wraig yn cadarnhau'r mewnwelediad oedd gan Iesu ohoni. O ran datblygiad yn ffydd y wraig, mae adnod 29 yn allweddol. Yma ceir cais ganddi: 'Dewch i weld dyn a ddywedodd wrthyf bopeth yr wyf wedi ei wneud'. Dengys hyn bod y wraig eisoes yn meddu elfen o ffydd os yw hi'n annog eraill i dystio i rodd Iesu.⁶⁸ Mae wedi anghofio ei chymhelliad dros fynd i'r ffynnon ar gyfer pwrpas arall – er mwyn cael dweud wrth eraill am ddod i dystiolaethu i'r un sydd â gallu dwyfol. Ceir adlais yma o hanes Nathanael yn Ioan 1:43-51. Dywed Phillip wrtho, 'Tyrd i weld' (In. 1:46), er mwyn iddo gael cyfarfod 'y gŵr yr ysgrifennodd Moses yn y Gyfraith amdano, a'r proffwydi hefyd, Iesu fab Joseff o Nasareth' (In. 1:45). Yn yr un modd â'r wraig o Samaria, mae Iesu yn arddangos ei adnabyddiaeth o Nathanael gan ddatgan ei gymeriad wrtho, er nad yw Nathanael yn deall sut mae'n gwybod unrhyw beth amdano.⁶⁹ Dyma olygfa arall yn Efengyl Ioan lle mae cymeriad yn annog eraill i ddod i weld Iesu er mwyn iddynt ei brofi drostynt eu hunain. Mae Phillip eisoes wedi cael ei argyhoeddi, ond a oes modd dweud yr un fath am y wraig o Samaria ar y pwynt hwn?

Er bod mynd i'r dref i ddweud wrth eraill yn ymddangos fel gweithred bositif o ran lefel ffydd y wraig a'i hadnabyddiaeth o Iesu, mae'r cymal nesaf yn yr adnod hon yn gwneud i rai cwestiynu pa mor gadarn yw ei ffydd mewn gwirionedd. Cwestiwn sy'n dilyn yn hytrach na datganiad, 'A yw'n bosibl mai hwn yw'r Meseia?' (ad. 29). Mae nifer o ysgolheigion yn dadlau bod elfen betrusgar ac amheuol yma,⁷⁰ neu efallai mai dyma ffordd yr awdur o gyfleu cymaint yr oedd y wraig wedi cyffroi. Dadl Maccini yw bod y cwestiwn hwn yn adlewyrchiad o strategaeth y wraig yn hytrach nag yn fynegiant o amheuaeth.⁷¹ Gan gofio statws gymdeithasol y wraig, ni fyddai hi'n cael ei hystyried yn gymwys i weithredu fel tyst allai

⁶⁸ Gweler Lee, *The Symbolic Narratives of the Fourth Gospel*, t. 85.

⁶⁹ Gweler Seim, *Roles of Women in the Gospel of John*, t. 69.

⁷⁰ Raymond Brown, *The Gospel According to John* (Llundain:Continuum International Publishing, 1971), t.173. Cymh. Conway, *Women in the Fourth Gospel*, t. 123.

⁷¹ Gweler Maccini, *Her Testimony is True*, t. 145.

ddwyn perswâd ar ei chyd-Samariaid nac yn un y gellid ymddiried ynddi. Gwyddwn o adnod 9 ei bod hi'n ymwybodol o'i statws fel gwraig o Samaria, felly mae'n bosib ei bod hi'n rhagweld y byddai ei thystiolaeth ynghylch y Meseia yn derbyn ymateb chwyrn neu hyd yn oed yn atal trigolion Sychar rhag cymryd fawr o sylw ohoni. Mae'n debygol y byddai'n derbyn ymateb negyddol am ei bod hi'n ferch, ac felly ni fyddai cyffes ffydd ganddi hi yn cael yr un derbyniad â datganiad gan ddyn. Dywed Eugene Botha, 'The urging of the woman is intended to induce the townspeople to investigate this man for themselves... [She] is careful not to state the incredible outright'.⁷² Mae'n drawiadol bod yr efenglydd yn dewis peidio cyflwyno'r wraig fel petai yn credu'n llwyr mai ef yw'r Meseia, fel sy'n digwydd pan fo hi'n ei alw'n broffwyd. Mae ei neges yn adnod 29 yn datgan bod Iesu yn gwybod am bopeth mae hi wedi ei wneud, ond nid oes sicrwydd ai ef yw'r Meseia: 'A yw'n bosib mai hwn yw'r Meseia?'.

Mae'n bosibl nad amheuaeth sydd yma wrth ofyn cwestiwn ond yn hytrach mae'n fodd i ennyn chwilfrydedd y bobl ac mae'r wraig yn sicr yn llwyddo i wneud hynny. Gellir darllen datganiad y wraig mewn ffordd sydd yn awgrymu diffyg cred neu hyd yn oed fel mynegiant o syndod. Hynny yw, nid yw hi'n gallu credu ei bod wedi cael sgwrs hir ac ystyriol gyda Iesu ond hefyd ei fod wedi ei dewis hi i ddatgelu (i eraill) ei fod yn broffwyd ac mai ef yw'r Meseia hir-ddisgwyliedig. Efallai bod datganiad y wraig yn cael ei gyfleu mwy fel ffaith o'r hyn y tystiodd iddo yn hytrach nag fel cyffes ffydd, ond mae wedi bod yn ddigon o awgrym i'w chyd-drigolion fynd 'allan o'r dref a chychwyn tuag ato ef' (ad. 30) er mwyn cael dod i benderfyniad drostynt eu hunain.

⁷² J. Eugene Botha, *Jesus and the Samaritan Woman: A Speech Act Reading of John 4:1-42* (Brill: Leiden, 1997), t. 167.

2. Hau a Medi

Tra bod cynnwrf yn mynd ymlaen yn y dref ac wrth i'r trigolion nesáu at Iesu, mae Ioan yn mynd â'i ddarlennwyr yn ôl at y ffynnon lle mae Iesu bellach yn llefaru gyda'i ddisgyblion. Er nad yw'r wraig yn ymddangos yn adnodau 31-38, dysgir mwy amdani ac ynghylch arwyddocâd ei gweithredoedd, yn enwedig gyda chymorth symbolaeth y cynhaeaf. Gwelir yr un patrwm fel ynghynt yn y naratif, gyda'r disgyblion y tro hwn yn gwneud cais i Iesu fwyta'r bwyd a gariwyd ganddynt o'r dref (ad. 31). Mae Iesu'n troi hyn ar ei ben, sy'n arwain at ddiffyg dealltwriaeth unwaith eto. Gallwn weld bod hyn yn debyg iawn i'r defnydd o'r ddelwedd o ddŵr ar ddechrau'r bennod. Mae ymateb Iesu, 'y mae gennyf fi fwyd i'w fwyta na wyddoch chi ddim amdano' (ad. 32), yn peri dryswch i'r disgyblion. Mae gan ddarlennwyr ddisgwyliadau y bydd y rhai sy'n agos at Iesu ac yn ei adnabod yn dda, yn gwybod yn well o'i gymharu â'r wraig o Samaria. Serch hyn, dangosir yma fod y disgyblion hwythau yn cael trafferth deall yr hyn y mae Iesu yn ceisio ei egluro ar lefel symbolaidd. Ceir cyfeiriad yma at y ffaith nad oes gan y disgyblion syniad o gynnwys y sgwrs rhwng Iesu a'r wraig, ac felly maent yn anwybodus o'r hyn sy'n digwydd o ganlyniad i'r ddeialog honno.

Petai'r disgyblion wedi bod yn ddigon hy i ofyn i Iesu beth a drafodwyd gyda'r wraig (ad. 27), o bosib byddai Iesu wedi ceisio egluro'r sgwrs iddynt. Ond ceir enghraifft yma unwaith eto o ddisgyblion yn gwrthod gofyn am eglurhad uniongyrchol. Mae'r awdur yn datgelu unwaith yn rhagor y gwahaniaeth rhwng y disgyblion mud a'r wraig oedd yn barod iawn i herio Iesu. Maent hwythau, fel y wraig ar y dechrau, yn dehongli geiriau a gweithredoedd Iesu ar lefel lythrennol (ad. 33). Aiff Iesu ymlaen i egluro ymhellach gan sôn am yr hyn sy'n digwydd yn nhref Sychar ar yr un amser. Daw ei ddawn broffwydol i'r amlwg drachefn wrth iddo gyfeirio at y Samariaid (ad. 35).

Unwaith eto, gwelwn fod naratif yn gweithredu ar ddau lefel wrth i Iesu siarad mewn modd symbolaidd tra bod y disgyblion yn dal i feddwl ar lefel lythrennol wrth drafod yr angen am fwyd, yn yr un modd ag yr oedd y wraig wrth drafod y dŵr bywiol (ad. 11). Gwelwn hefyd yn Ioan 6:35 bod bwyd a diod yn cael eu rhoi gyda'i gilydd (cymh. 4:7, 32).⁷³ Y bwyd y mae Iesu'n cyfeirio ato yma yw'r hyn sy'n rhoi cryfder a chynhaliaeth iddo, sef cyflawni ewylllys yr un a'i hanfonodd (ad. 34). Y genhadaeth sydd wedi cael ei roi iddo gan Dduw yw yr hyn sy'n ei gynnal, a dyma a gynigiodd i'r wraig er mwyn i eraill dderbyn bwyd tragwyddol. Yn yr un modd â'r wraig, mae angen mwy o eglurhad ar y disgyblion o'r hyn a ddywed Iesu. Yn eironig, mae'r gymhariaeth rhwng y Samariaid yn dod i gredu a'r cynhaeaf yn amlygu cymaint llai o ddealltwriaeth o'r sefyllfa sydd ganddnt na'r wraig o Samaria.⁷⁴ Tra maent yn sefyll yn stond, mae'r wraig wedi cythru i ddweud wrth eraill am ei chyfarfyddiad gyda Iesu.

Er bod elfen o amheuaeth yng nghwestiwn y wraig yn adnod 29, gellir dadlau bod defnydd Iesu o'r ddelwedd o gynhaeaf (ad. 35-38) yn fodd o gyfiawnhau bod y wraig wedi cwblhau yr hyn yr oedd Iesu yn dymuno iddi ei wneud. Efallai nad yw ei ffydd yn gyflawn erbyn y pwynt hwn, ond mae hi wedi cymryd arni rôl 'apostolaidd' ac felly bellach mae hi'n ymdebygu i ddisgybl. Mae'n ymddangos y bydd y disgyblion presennol yn elwa o'i gwaith hi, gan mai 'eraill sydd wedi llafurio, a chwithau wedi cerdded i mewn i'w llafur' (ad. 38).

3. Effaith Tystiolaeth y Wraig

Wrth i Iesu sôn am y rhai sydd wedi llafurio a'r disgyblion yn elwa o'u gwaith, daw llawer o'r Samariaid o'r dref i weld Iesu drostynt eu hunain (ad. 30). Maent wedi dod oherwydd yr hyn

⁷³ Gweler Thompson, *John*, t. 108.

⁷⁴ Gweler Lee, *The Symbolic Narratives of the Fourth Gospel*, t. 87.

y mae'r wraig wedi dweud wrthynt ac mae hwythau hefyd eisiau profi yr hyn mae'r wraig wedi'i wneud. Tynn loan sylw at y ffaith eu bod yn dod i gredu drwy air y wraig, 'Dyweddod wrthyf bopeth wyf wedi ei wneud' (ad. 39), a chysyllta hyn felly gyda'r syniad o'r ffigwr proffwydol mae'r Samariaid yn ei ddisgwyl. Mae loan 4:31-38 yn rhagweld y dyrfa hon yn dod i gredu yn Iesu. Dengys bod y wraig wedi hau yr hadau ac maent wedi medi oherwydd ei llafur. Gwelwn erbyn hyn bod rôl y wraig wedi newid, gan nad yw ei llais i'w chlywed bellach ond mae dal yn rhan fawr o'r stori o fewn cyd-destun galw a chenhadu.⁷⁵ Daw yn amlwg bod cenhadu yn Efengyl loan yn gyfrifoldeb i bawb, i ddynion a gwragedd.⁷⁶ Gellir cymharu hyn gyda'r bennod cyntaf pan fo'r disgyblion yn galw ar eraill i ddod i weld Iesu (In. 1:35-54). Mae'r disgyblion hefyd yn annog eraill, 'Dewch i weld' (1:39) er mwyn iddynt hwythau ddod i gredu yn Iesu hefyd. Mae'r rôl o genhadu yn cynnwys pawb yn Efengyl loan ac nid yw'n cael ei gyfyngu i'r dynion yn unig. Dyma fwriad Iesu wrth iddo fentro i Samaria, sef i osod tasg genhadol i'r wraig a gwelwn yn adnod 42 ei bod wedi cyflawni'r dasg honno.

Er i'r Samariaid ddweud wrth y wraig (ad. 40), 'Nid trwy'r hyn a ddywedaist ti yr ydym yn credu mwyach, oherwydd yr ydym wedi ei glywed drosom ein hunain...' (ad. 42), ni ddylid diystyru dystiolaeth y wraig. Nid yw hyn i ddweud nad oes unrhyw werth i dystiolaeth y wraig. Yn hytrach, mae'n arwydd nad yw'r pentrefwyr yn ddibynnol ar air y wraig mwyach oherwydd eu bod wedi clywed gair Iesu drostynt eu hunain. Mae Raymond Brown yn ei ddehongli fel mynegiant o dystiolaeth, 'the inferiority of any human witness compared to encountering Jesus',⁷⁷ hynny yw bod gair Iesu yn rhagori ar unrhyw dystiolaeth a roddir gan y sawl sy'n tystio iddo. Mae hyn hefyd yn cael ei ategu gan Sandra Schneiders, 'In John's perspective the

⁷⁵ Gweler Seim, *Roles of Women in the Gospel of John*, t. 69.

⁷⁶ Ibid, t. 70.

⁷⁷ Raymond Brown, 'Roles of Women in the Fourth Gospel', *Theological Studies* 36 (1975), t. 691.

witness of believing disciple brings person to Jesus then the disciple fades away as the prospective believer encounters Jesus himself'.⁷⁸ Mae rôl y wraig yn allweddol er mwyn dod â'r Samariaid at Iesu ond nid oes modd dod i gredu'n llawn yn Iesu, dim ond trwy gyfarfyddiad personol gydag ef.

Gofynna'r Samariaid i Iesu aros gyda hwy ac mae'n cytuno i aros am ddau ddiwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn, 'daeth llawer mwy i gredu ynddo drwy ei air ei hun' (ad. 41). Er nad yw'r loan yn dweud yn bendant, gellir dadlau ei bod hi'n bosibl bod y wraig yn cael ei chyfrif fel un o'r rhai sy'n rhan o'r dorf a ddaw i gredu yn Iesu. Dewisa loan beidio datgelu a yw'r wraig yn dod i lawn ffydd ai peidio ond dyma enghraifft o awgrym ei bod hi'n rhan o gynhaeaf ffydd y Samariaid. Ceir enghraifft arall yn adnod 35 pan fo Iesu'n dweud wrth ei ddisgyblion, 'Oni fyddwch chi'n dweud, "Pedwar mis eto, ac yna daw'r cynhaeaf"? Ond dyma fi'n dweud wrthyh, codwch eich llygaid ac edrychwch ar y meysydd, oherwydd y maent yn wyn ac yn barod i'w cynaeafu'. Ceir awgrym bod y disgyblion yn credu mai rhywbeth yn y dyfodol fydd gweld y meysydd yn barod i'w cynaeafu, ond mae hefyd yn debyg i adnod 23: mae'r amser eisioes wedi dod. Gellir dehongli hyn fel awgrym bod Iesu yn credu bod y wraig wedi dod i ffydd yn barod cyn ei bod yn rhannu ei thystiolaeth gyda'r Samariaid.

Yn sicr yn adnod 42 gellir dweud bod y wraig wedi cyflawni ei rôl cenhadol a'i bod hyn yn ymdebygu i rôl apostolaidd. Mae stori'r wraig yn dilyn yr un patrwm â thystion eraill yn yr efengyl. Mae'r wraig wedi cael profiad personol o'i allu ac yn gwahodd eraill i brofi yr un peth. Fel yn achos Mair mam Iesu, mae'r ffocws bellach yn mynd oddi wrth y wraig ac yn troi at Iesu. Dywed Maccini, 'She is much more of a witness than Jesus' mother, much less of a

⁷⁸ Gweler Schneiders, *Written that you May Believe*, t. 40.

witness than John the Baptist'.⁷⁹ Fel Ioan Fedyddiwr, mae'r wraig o Samaria hefyd yn diflannu o'r llwyfan; '[she] fades from view as Jesus take centre stage'.⁸⁰

Mae adnod 42 yn dad-wneud y gwahaniaethau a amlygir yn adnod 9, sef 'pwy wyt ti a tithau'n Iddew'.⁸¹ Dyma benllanw'r olygfa-teip ('*betrothal type-scene*'), sef bod undod yn digwydd rhwng yr Iddewon a'r Samariaid. Ond mae'r undod yn fath wahanol i'r rhai sydd wedi digwydd gerllaw ffynnon yn yr Ysgrythurau Iddewig. Medd Adele Reinhartz, 'The story frustrates the usual expectations by referring to her ambiguous marital status and by showing Jesus as offering a liaison of a divine sort, implicitly superior to the human betrothal central to Genesis 24 (Rebekah and Isaac), Genesis 29 (Rachel and Jacob), and Exodus 2 (Zipporah and Moses)'.⁸² Mae'r undod hwn yn cyflawni'r pwrpas dwyfol o fynd drwy Samaria. Wrth i nifer o'r Samariaid ddod i gredu yn Iesu, mae'r ffiniau oedd yn gwahanu'r Samariaid a'r Iddewon bellach wedi cael eu chwalu gan eu bod wedi eu huno drwy eu ffydd yn Iesu. Fel y soniwyd ar ddechrau'r astudiaeth hon, mae ymddiddan Iesu gyda'r wraig yn arwydd o agwedd gynhwysol Efengyl Ioan.⁸³ Mae dynion a gwagedd yn perchnogi'r rôl apostolaidd wrth iddynt dderbyn y gwahoddiad i ddod i adnabod Iesu, dod i gredu yno, a phrofi'r gwir addoliad sydd ar gael i bawb.

Gwelwn fod y pentrefwyr yn mynd gam ymhellach yn eu ffydd. Maent wedi clywed gan y wraig am allu Iesu; maent hefyd yn disgwyl i'r Meseia ddod, ac adnod 42 dywedant, 'fe **wyddom** mai hwn yn wir yw Gwaredwr y byd'. Sylweddolodd y Samariaid fod Iesu yn fwy na'r

⁷⁹ Maccini, *Her Testimony is True*, t. 142.

⁸⁰ Myers, *Reading John and 1, 2, 3 John*, t. 70.

⁸¹ *Ibid.*, t. 70.

⁸² Adele Reinhartz, 'Unnamed Women' yn C. Myers, T. Craven, R. S. Kraemer (gol.), *Women in Scripture: A Dictionary of Named and Unnamed Women in the Hebrew Bible, the Apocryphal/Deuterocanonical Books, and the New Testament* (Boston: Houghton Mifflin, 2000), t. 454.

⁸³ Gweler Seim, *Roles of Women in the Gospel of John*, t.58.

proffwyd fel Moses roeddent wedi bod yn ddisgwyl amdano. Clywasant awgrym gan y wraig ei fod yn Meseia ond wrth dreulio amser gydag ef a phrofi ei allu. Er nad yw'n glir bod y wraig yn dod i lawn ffydd mae canlyniad ei thystiolaeth yn cadarnhau pwysigrwydd ei chyfarfyddiad â Iesu. Medd Hylén, 'Even without full belief, she becomes the well that brings living water to others'.⁸⁴ Hi yw'r catalydd sy'n dod ag eraill i ffydd yn Nuw, er gwaethaf lefel ei dealltwriaeth hi. Nid ei geiriau hi oedd wedi dod a'r Samariaid i ffydd ond dim ond drwy wrando ar ei eiriau **ef** oedd modd dod i lawn adnabyddiaeth o Iesu.⁸⁵

⁸⁴ Gweler Hylén, *Imperfect Believers*, t. 55.

⁸⁵ Gweler Coloe, *God Dwells with Us*, t. 107.

Casgliad

Amcan y traethawd hwn yw trafod arwyddocâd y ffaith bod datblygiad sicr yn ffydd y wraig o Samaria wrth iddi gyfathrebu gyda Iesu wrth y ffynnon. Yr hyn sy'n heriol mewn astudiaeth o'r fath yw ceisio mesur i ba raddau mae'r wraig wedi dod i lawn gredu yn Iesu. Wrth ystyried cynnwys a dilyniant Ioan 4, gellir gweld bod cysylltiad cryf rhwng lefel adnabyddiaeth y wraig a'r datblygiad yn ei ffydd yn Iesu.

Ar ddechrau'r ddeialog, nid yw'r wraig yn ystyried Iesu fel dim mwy nag Iddew ac nid yw hi'n deall pam ei bod yn siarad gyda hi, 'Sut yr wyt ti, a thithau'n Iddew, yn gofyn am rywbeth i'w yfed gennyf fi, a minnau'n wraig o Samaria?' (ad. 9). Ond mae'r efengyllydd yn awgrymu, yn yr adnodau agoriadol, bod rheswm arwyddocaol dros y ffaith bod Iesu yn cyfathrebu gyda hi. Mae Ioan yn tynnu sylw at y rheidrwydd i Iesu fynd trwy Samaria (ad. 4) pan nad oedd angen iddo wneud hynny yn ddaearyddol, gan awgrymu mai taith o darddiad dwyfol yw hon. Gwelwn drwy'r bennod bod patrwm penodol i'r ddeialog: mae mae Iesu yn gwneud cais (ad. 7, 16), ceir datganiad ganddo (ad. 10, 17) ac yna ymateb cychwynnol y wraig (ad. 9, 19) i'r pwnc sydd o dan sylw. Dengys Iesu ddyfalbarhad, amynedd ac ymdrech wrth iddo geisio herio'r wraig i adnabod pwy ydyw mewn gwirionedd. Wrth osod y ddeialog yn ymyl ffynnon, sy'n adleisio'r olygfa-teip (*'betrothal type-scene'*) o'r Ysgrythurau Iddewig, mae Ioan yn darogan y bydd undod yn cael ei sefydlu ar sail y cyfarfyddiad hwn. Dyma oedd bwriad Duw, sef i sefydlu undod rhwng yr Iddewon a'r Samariaid a defnyddio'r wraig fel tyst i rannu ei phrofiad gyda thrigolion y dref. Yn wahanol i'r ddeialog gyda Nicodemus yn y bennod flaenorol, nid yw Iesu'n tynnu sylw ar ddiffygion y wraig ond yn hytrach yn ceisio ei hannog i ddarganfod hunaniaeth Iesu drosti ei hun.

Yn adnodau 7-15, mae'r wraig yn ymddangos yn eithaf di-glem ynghylch y dŵr bywiol a gyflwynir gan Iesu, a hynny gan nid yw hi'n deall yr hyn mae Iesu yn ei ddweud wrthi ar lefel symbolaidd (ad. 11). Er ei bod yn gofyn am y dŵr y mae Iesu'n sôn amdano (ad. 15) nid oes tystiolaeth pellach ar y foment hon i gyfleu datblygiad yn ffydd y wraig. Nid yw'r wraig yn gwneud unrhyw ymgais, yn y rhan yma o'r ddeialog, i ddatgan rhywbeth am hunaniaeth Iesu. Nid yw hi'n deall yn llawn beth sydd gan Iesu i'w gynnig iddi nac ychwaith beth yw arwyddocâd y dŵr bywiol a fydd yn rhoi bywyd tragwyddol iddi.

Gwelwn drobwynt yn y sgwrs yn adnodau 16-19. Yn sicr, gellir cytuno gydag awgrym Francis Moloney pan ddywed, 'it is this discussion which moves the woman from the initial "no faith" position to one of "incomplete faith"'. Fe ddigwydd hyn pan fo'r wraig yn galw Iesu yn broffwyd (ad. 19).⁸⁶ Pan fo Iesu'n datgelu ei fod yn gwybod popeth amdani, mae hi'n sylweddoli bod ganddo allu goruwchnaturiol. Gwelir, felly, mai wedi iddo grybwyll rhywbeth sy'n bersonol iddi hi, yn hytrach nag mewn ymateb i esboniad symbolaidd, y mae'r wraig yn cymryd cam ymlaen i'w alw yn rhywbeth fwy nag Iddew. Er y byddai'n hawdd diystyru'r wraig oherwydd ei thras, statws a'i chefnidir Samariaidd, mae Ioan yn portreadu'r wraig mewn modd sy'n dangos bod ganddi ddiddordeb diwinyddol yn Iesu a'r hyn a gynnigir ganddo (ad. 9, 20). Gwêl ei chyfle i holi'r 'proffwyd' ynghylch y gwir fan i addoli ac, ar y ddiwedd y rhan yma o'r sgwrs, gwelir datblygiad pellach yn ei ffydd.

Mae'r hyn y mae Iesu yn ei rannu gyda hi am y gwir ffordd o addoli (ad. 21-24) yn gwneud i'r wraig feddwl am y Meseia y mae'r Samariaid yn disgwyl amdano. Gydag ymateb Iesu, 'Myfi yw' (ad. 26), caiff y cadarnhad mai ef yw'r Meseia. Dyma'r sbardun iddi fynd i'r dref i ddweud

⁸⁶ Gweler Francis J. Moloney, 'From Cana to Cana (Jn. 2.1-4.54) and the Fourth Evangelist's Concept of Correct (and Incorrect) Faith' yn E.A. Livingstone (gol.), *Studia Biblica 1978 International Congress on Biblical Studies*, t. 198.

am ei phrofiad wrth ei chyd-Samariaid. Er bod awgrym o amheuaeth yng ngeiriad yr hyn ddywed y wraig, 'A yw'n bosib mai hwn yw'r Meseia?' (ad. 29), mae ei thystiolaeth a'i rôl fel tyst yn rhan allweddol o'r hanes. Efallai nad yw hi wedi cyrraedd ffydd cyflawn ond mae'n arwain y ffordd at eraill i gael y cyfle i brofi Iesu eu hunain ac i ddod i ffydd drwy ei air.

Anodd yw mesur, felly, a yw'r wraig hon yn dod i lawn ffydd erbyn diwedd ei chyfarfyddiad gyda Iesu. Gellir dehongli'r naratif mewn modd fel bod y wraig ymhlith y Samariaid sy'n dod i gredu yn Iesu wedi iddo aros gyda hwy am ddau ddiwrnod, a hynny er nad oes cyfeiriad uniongyrchol ati yn dod i ffydd. Yn sicr, mae lefel adnabyddiaeth y wraig o Iesu yn cynyddu ym mhennod 4 – o'i adnabod fel Iddew (ad. 9), fel proffwyd (ad. 19) ac yna'r awgrym mai ef yw'r Meseia (ad. 29). Wrth i'w lefel o ddealltwriaeth gynyddu, mae ei ffydd yn Iesu hefyd yn datblygu. Ond gellir dadlau, yn ogystal, nad yw'r wraig o angenrheidrwydd yn dod i ddeall mai ffigur dwyfol yw Iesu, ond yn hytrach yn ei ystyried fel y Meseia (dynol) a ddisgwyliid gan y Samariaid.

Er gwaethaf y gwahaniaethau amlwg rhwng y portread o'r wraig o Samaria a'r darlun o Nicodemus, mae'r ddau yn mynd ar siwrne ffydd ac yn cyrraedd pwynt sydd y tu hwnt i'w cyfyngiadau cychwynnol. Cytunaf gyda Margaret Beirne yn y cyswllt hwn pan ddywed, 'both progressed to a state of faith not articulated verbally but evident in practical expression'.⁸⁷ Nid yw'r wraig yn datgan ei ffydd yn glir ar lafar ond mae ei rôl yn newid ac, fel disgyblion Iesu, yn cenhadu ar ei ran er mwyn dod ag eraill i ffydd. Mae hyn yn sicr yn arwydd o'r datblygiad dramatig yn ei ffydd ers dechrau'r ddeialog. Trwy'r genhadaeth hon, mae'r bwriad dwyfol yn cael ei chyflawni, sef sefydlu undod rhwng y Samariaid a'r Iddewon ar sail eu ffydd

⁸⁷ Margaret Beirne, *Men and Women in the Forth Gospel: A Genuine Discipleship of Equals* (Sheffield Academic Press, 2003), t. 98.

yn Iesu. Bydd y rhai sydd yn credu yn Iesu yn profi o'r dŵr bywiol ac yn addoli Duw mewn ysbryd a gwirionedd ddol – gan dderbyn y bywyd tragwyddol sydd gan Iesu i'w gynnig iddynt.

Gellir ategu, i gloi, yr hyn a ddywed Rudolf Schnackenburg: '...the evangelist is not concerned with her psychology or feelings, but with her growing faith'.⁸⁸ Petai Ioan, felly, yn awyddus i'r darllenydd wybod bod y wraig wedi cyrraedd lawn ffydd, byddai wedi datgelu hynny. Ond yr hyn a bwysleisir ym mhennod 4 yw *taith ffydd* y wraig. O bosib nid yw hi wedi cyrraedd diwedd y daith honno erbyn ei 'diflaniad' o'r naratif, ond yn sicr dengys y wraig yr awydd i wybod mwy trwy holi Iesu ymhellach yn ogystal â'r angerdd i rannu ei thystiolaeth gydag eraill. Trwy ei chynnydd yn ei hadnabyddiaeth o Iesu a thrwy ei rôl genhadol, mae modd dadlau bod ei ffydd yn datblygu yn ddirfawr. Ni ellir dweud yn bendant bod ei ffydd wedi cyrraedd ei lawn botensial, ond yn sicr mae wedi tyfu, datblygu ac aeddfedu ac yn gam yn nes, yn ôl Ioan, at brofi yr hyn sydd gan Dduw i'w gynnig iddi.

⁸⁸ Rudolf Schnackenburg, *The Gospel according to St John: Volume 1* (Efrog Newydd: Crossroad Publishing, 1982), t. 434.

LLYFRYDDIAETH

Alter, R., *Art of Biblical Narrative* (Llundain: Allen and Unwin, 1981).

Beirne, M., *Women and Men in the Fourth Gospel: A Genuine Discipleship of Equals* (Sheffield Academic Press, 2003).

Botha, J.E., *Jesus and the Samaritan Woman: A Speech Act Reading of John 4:1-42* (Brill: Leiden, 1997).

Brodie, T.L., *The Gospel According to John: A Literary and Theological Commentary* (Oxford University Press, 1998).

Brown, R., *The Gospel According to John* (Llundain: Continuum International Publishing, 1971).

Brown, R., *The Community of the Beloved Disciple: The Life, Loves and Hates of an Individual Church in New Testament Times* (NJ: Paulist Press, 1978).

Coloe, M.L., *God Dwells With Us: Temple Symbolism in the Fourth Gospel* (MN, Liturgical Press, 2001).

Coloe, M.L., 'The Woman of Samaria: Her Characterization, Narrative and Theological Significance', yn C.W. Skinner (gol.), *Characters and Characterisation in the Gospel of John* (Llundain: Bloomsbury Publishing Plc, 2013), tt.182-196.

Conway, C.M., *Men and Women in the Fourth Gospel: Gender and Johannine Characterization* (Atlanta, GA: Society of Biblical Literature, 1999).

Davies, D., *Cyfres o Esboniadau: Efengyl Ioan* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2005)

Hylen, S., *Imperfect Believers: Ambiguous Characters in the Gospel of John* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 2009).

Jones, L.P., *The Symbol of Water in the Gospel of John* (Llundain: Bloomsbury Publishing Plc, 1997).

Larsen, K.B., *Recognizing the Stranger* (Leiden: Brill Publishing, 2008).

Lee, D., *Flesh and Glory: Symbolism, Gender and Theology in the Gospel of John* (Herder & Herder, 2002).

Lee, D., *The Symbolic Narratives of the Fourth Gospel* (Sheffield Academic Press, 1994).

Lincoln, A.T., *The Gospel According to St. John* (Llundain: Bloomsbury Publishing Plc, 2005).

Maccini, R.G., *Her Testimony is True: Women as Witnesses according to John* (Llundain: Bloomsbury Publishing Plc, 1996).

McGrath, J.F., www.bibleodyssey.org/ask-a-scholar/woman-at-the-well/, 2023.

Moloney, F.J., 'From Cana to Cana (Jn. 2.1-4.54) and the Fourth Evangelist's Concept of Correct (and Incorrect) Faith' yn E.A. Livingstone (gol.), *Studia Biblica 1978 International Congress on Biblical Studies* (Sheffield: University of Sheffield Press, 1978).

Myers, A.D., *Reading John and 1, 2, 3 John: A Literary and Theological Commentary* (Macon, GA: Smyth and Helwys Publishing Inc, 2019).

O'Day, G., 'Gospel of John' yn C.A. Newsom, S.H. Ringe, a J.E. Lapsley (gol.), *The Women's Bible Commentary* (Llundain: SPCK, 2014), tt. 517-535.

O'Day, G., *Revelation in the Fourth Gospel: And Eight Johannine Essays* (Eugene, OR: Wipf and Stock, 2021).

Reinhartz, A., 'Unnamed Women', yn C. Myers, T. Craven, R. S. Kraemer (gol.), *Women in Scripture: A Dictionary of Named and Unnamed Women in the Hebrew Bible, the Apocryphal/Deuterocanonical Books, and the New Testament* (Boston: Houghton Mifflin, 2000), t. 454.

Seim, T.K., 'Roles of Women in the Gospel of John', yn L. Hartman a B. Olsson (gol.), *Aspects on the Johannine Literature: Papers presented at a Conference of Scandinavian New Testament Exegetes at Uppsala, June 16-19, 1986* (Sweden: Almqvist & Wiksell, 1986), tt. 56-73.

Schneiders, S.M., *Written That You May Believe: Encountering Jesus in the Fourth Gospel* (Efrog Newydd: Crossroad Publishing, 2003).

Scott, M., *Sophia and Johannine Jesus* (Llundain: Bloomsbury Publishing Plc, 1997).

Schnackenburg, R., *The Gospel according to St John: Volume 1* (Efrog Newydd: Crossroad Publishing, 1982).

Thompson, M.M., *John: A Commentary* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 2017).

Phillips, R., 'Reaching People in Evangelism',
<https://www.ligonier.org/learn/articles/reaching-people-evangelism>, 2014.

Williams, C.H., 'Samaritan Hopes and Scriptural Promises: Engagement with Samaritans and Samaritan Issues in John 4', yn R.A. Culpepper a J. Frey (gol.), *Expression of Johannine Kerygma in John 2:23-5:18* (Tübingen: Mohr Siebeck Publishing, 2019), tt.117-135.